Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

2008-2013

Byw'n Hirach Byw'n Well

Rhagair

Yng Nghymru rydym yn ffodus y gallwn ddathlu ein cymdeithas sy'n heneiddio. Mae cymdeithas sy'n heneiddio yn gymdeithas gyfoethog. Wrth gwrs, mae'n cyflwyno sawl her, ond hefyd sawl cyfle. Dyna pam y gwnaethom lansio ein Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn 2003, i gefnogi'r sector cyhoeddus a'r sector annibynnol i ddatblygu polisïau a chynlluniau sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Fel y nodir yn y ddogfen hon bydd cam nesaf y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn canolbwyntio ar 'brif ffrydio' heneiddio yn ogystal ag ar statws economaidd a lles ac annibyniaeth pobl hŷn, gan sicrhau bod ymgysylltu â hwy wrth wraidd y strategaeth. Mae'r rhain yn flaenoriaethau hollbwysig y mae angen mynd i'r afael â hwy mewn modd cadarn.

Rwy'n falch o allu cymeradwyo Cam 2 y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn i chi. Mae'n datblygu ar gyflawniadau'r pum mlynedd gyntaf a lwyddodd i godi proffil materion pobl hŷn yn llwyddiannus, a chyflwyno ystod o bolisïau a rhaglenni newydd ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'n bleser gennyf ddweud y cydnabuwyd y llwyddiant hwn yn eang, yn enwedig gyda phenodiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Ionawr 2008.

I orffen hoffwn ofyn i chi dreulio ychydig funudau yn darllen 'Gwanwyn', a ysgrifennwyd gan Fardd Cenedlaethol Cymru, Gwyn Thomas. Mae'n gwneud i chi feddwl ac yn eich ysbrydoli!

Gwenda Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynnwys

Gwanwyn 1

Crynodeb Gweithredol 3

Pennod 1 5
Cyflwyniad a Chyd-destun

Pennod 2 15
Gwerthfawrogi Pobl Hŷn: Cynnal a Datblygu Ymgysylltu

Pennod 3 25
Cymdeithas sy'n Newid: Statws Economaidd a Chyfraniad Pobl Hŷn

Pennod 4 33
Lles ac Annibyniaeth

Pennod 5 45
Gwneud iddo Ddigwydd: Gweithredu'r Strategaeth

Atodiad 1 Themâu a Gymeradwywyd gan Gabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru 53

Atodiad 2 Cynllun Gweithredu 55

Atodiad 3 Dangosyddion Newid 57

GWANWYN

Mae rhywun wedi troi ei drigain
Yn cael ei demtio i daro ei glun i lawr
A'i draed i fyny
Ac eistedd yn gyfforddus yn syllu
Ar ddiffeithderau diderfyn rhyw sgrîn
A'r gwacterau duon hynny ynddi
Ysydd ar raddfa gosmig
Ac yn barod i sugno o'r syllwr -
I grombil ddiwala - unrhyw lygedyn o fywyd,
Unrhyw osgo at smic o wreiddioldeb.
Ac os na fydd dyn yn ofalus
Fe all ei gael ei hun yn marwol olwyno
Yn llyfn a digyffro
Mewn amdo du o ddiffyg dychymyg
I fedd i gael ei briddo,
Neu i ffwrnais i'w losgi yn golsyn.

Hynny ydi, os nad oes yn rhywun
Yr ewyllys i beidio â gollwng ei afael
Ar wanwyn tragwyddol y dychymyg.
Felly, dowch allan, gymrodyr, a dawnsiwch,
Canwch, cyfansoddwch;
Mynnwch brofi o hyd
Holl ryfeddod diderfyn y byd.

Mynnwn ddangos i bawb ein bod ni yn fyw.

Gwyn Thomas
Bardd Cenedlaethol Cymru

Ysgrifennwyd ar gyfer Gŵyl Celfyddydau a Chreadigrwydd Gwanwyn ar gyfer Pobl Hŷn 2007.

© gwanwyn 2007

Crynodeb Gweithredol

... nid oes “ateb cyflym” ar gael i’r heriau a’r cyfleoedd a gyflwynir gan boblogaeth sy’n heneiddio. Mae’n rhaid sicrhau ymdrech gynaliadwy a difrifol dros gyfnod o 10 mlynedd o leiaf er mwyn i ni fynd i’r afael â’r materion eang eu cwmpas ac yn aml, materion rhyng-ddibynnol, lle y mae angen newid er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn elwa yn awr ac yn y dyfodol.
(Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, 2003)

Roedd cyflwyno'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn 2003 yn garreg filltir yng Nghymru ac mae wedi cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei gweledigaeth a'i chwmpas. Mae'r Strategaeth yn herio gwahaniaethu a stereoteipiau negyddol heneiddio ac yn dathlu bywyd hwy fel cyfle. Un o nodweddion craidd y Strategaeth yw'r pwyslais y mae'n ei roi ar ymgysylltu â phobl hŷn, sicrhau eu cyfranogiad a'u grymuso. Un nod allweddol yw sicrhau cydraddoldeb ac urddas a nodi ffyrdd o unioni'r annhegwch a wynebir yn aml gan bobl yn ddiweddarach yn eu bywydau. Mae'n hyrwyddo cyfraniadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol parhaus pobl hŷn i gymdeithas yn gyffredinol a'u teuluoedd a'u cymunedau yn arbennig. **Mae'r Strategaeth eang ei chwmpas hon yn cydnabod penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd iechyd a lles ac yn hyrwyddo heneiddio'n weithgar ac yn iach**. Fel hyn mae'n gwrthod y delweddau o ddiffyg a dirywiad a gysylltir mor aml â heneiddio.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i Strategaeth ddeng mlynedd ac mae'r ddogfen hon yn nodi'r amcanion strategol allweddol ar gyfer yr ail bum mlynedd o 2008 i 2013. Rydym yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cyntaf tra'n cydnabod bod yn rhaid i hon fod yn agenda newid hirdymor. Bydd angen i awdurdodau lleol a'n partneriaid eraill ddyblu eu hymdrechion er mwyn i ni sicrhau cynnydd ym mhob maes polisi.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar bedair thema, gyda phob un ohonynt yn gysylltiedig â nod strategol cyffredinol, sef:

- **Gwerthfawrogi Pobl Hŷn - Cynnal a Datblygu Ymgysylltu.**

  Hyrwyddo delweddau cadarnhaol o heneiddio a sicrhau y gall pobl dros 50 oed chwarae rhan mor llawn ag y dymunant yn eu cymunedau, gan roi iddynt ymdeimlad cryfach o ymgysylltiad a dylanwad.

- **Cymdeithas sy'n Newid - Statws Economaidd a Chyfraniad Pobl Hŷn.**

  Datblygu polisïau i gynyddu gallu pobl dros 50 oed i barhau i weithio, dysgu, gwirfoddoli a gofalu, gan wneud cyfraniad gweithredol am gyhyd ag y dymunant, a sicrhau nad yw pobl hŷn yn byw mewn tlodi.

- **Lles ac Annibyniaeth.**

  Gwella iechyd a lles pobl hŷn drwy fentrau i hyrwyddo iechyd yn ogystal â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thai ymatebol, o safon, a reoleiddir yn briodol. Bydd y rhain yn galluogi pobl hŷn i fyw bywyd mor weithgar ac annibynnol â phosibl mewn amgylchedd addas a diogel o'u dewis.

- **Gwneud iddo Ddigwydd - Gweithredu'r Strategaeth.**

  Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru drwy ddefnyddio arian cymorth i sicrhau ei bod yn gatalydd ar gyfer newid ac arloesi ym mhob sector, gan wella gwasanaethau i bobl hŷn, darparu'r sail ar gyfer cynllunio effeithiol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio ac adlewyrchu pryderon pobl hŷn.

Mae'r nodau strategol yn y pedair thema yn ymgorffori'r broses o ‘brif ffrydio’ pryderon pobl hŷn ym mhob maes polisi.

Mae'r bennod ganlynol yn cyflwyno'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, gan grynhoi llwyddiannau allweddol y cyfnod cyntaf a disgrifio'r prosesau sydd ynghlwm wrth ddatblygu ail gyfnod y Strategaeth. Mae pob un o'r penodau dilynol yn canolbwyntio ar un o'r themâu hyn, gan ddangos sut y bydd y nodau strategol yn llywio ein gwaith ni a gwaith ein partneriaid.

Pennod 1

Cyflwyniad a Chyd-destun

Heneiddio

1.1 Mae angen i'r gwaith o baratoi ar gyfer henaint bodlon ac annibynnol ddechrau cyn gynted â phosibl a dyma pam yr ydym wedi gosod 50 fel y terfyn oedran ar gyfer y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn. Mewn llawer ffordd, gellid ystyried bod hyn yn rhy gynnar i alw pobl yn hen. Eto, mae 'hŷn' yn gysyniad cymharol, ac nid yw oedran cronolegol o anghenraid yn adlewyrchu beth yw anghenion a phryderon pobl. Yn wir, nid yw pobl hŷn yn grŵp unffurf ac yn aml iawn y newidiadau mewn swyddogaethau o fewn y teulu ac yn y gwaith sy'n siapio bywydau pobl. Mae cryn amrywiadau ymhlith pobl dros 50 oed, yn dibynnu ar ba gyfnod y maent yn y cylch bywyd.

1.2 **Mae rolau gwaith a gofalu yn llywio bywydau llawer o bobl yn eu 50au**. Yn aml mae dynion a menywod yn cael eu cyflogi, maent yn dechrau ail yrfa neu, yn achos rhai menywod, maent yn ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf. Gall y bobl hynny sy'n ddi-waith wynebu diffyg cyfleoedd cyflogaeth, mynediad cyfyngedig i addysg a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swyddi ac incymau is. Dyma aelodau hŷn y 'genhedlaeth yn y canol' fel y'i gelwir, sy'n gofalu am rieni tra'n parhau i ddarparu cymorth i'w plant a/neu eu hwyrion. Gall ceisio cydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofalu fod yn feichus.

1.3 **Yn aml, ymddeol yw'r prif bwynt newid i'r bobl hynny yn eu 60au**, er y bydd yna fenywod a dynion a fydd am barhau i weithio ar ôl oed ymddeol. Mewn rhai achosion, daw ymddeoliad ag ymdeimlad o golled ond bydd pobl eraill o bosibl yn ei ystyried yn gyfle i wneud pethau y gwnaethant ohirio eu gwneud tra oeddent yn magu teulu ac yn gweithio. Fel hyn gall fod yn ddechrau newydd sy'n creu ymdeimlad o adnewyddu. Ac eto **dyma'r adeg hefyd pan fydd gofalu am bartner yn dod yn fwy cyffredin**. Mae'n ddegawd pan all gadael y gweithlu a galwadau'r rôl ofalu arwain at fwy o unigedd cymdeithasol. Mae ymddeol hefyd yn gysylltiedig â gostyngiad mewn incwm ac mae mwy o risg o dlodi.

1.4 **Mae llawer o bobl hŷn yn parhau i fod yn gymharol ffit, gweithgar ac annibynnol pan fyddant yn eu 70au ac ar ôl hynny, ac eto mae cyswllt rhwng oed cynyddol ac eiddilwch cynyddol.** Mae consensws cryf am natur y problemau a wynebir gan bobl hŷn, yn arbennig ar ôl iddynt ymddeol. Ymhlith y rhain mae:

- Gall **allgáu cymdeithasol a diffyg cymorth cymdeithasol** fod yn broblem i'r rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain heb lawer o berthnasau na ffrindiau ac yn achos rhai pobl hŷn, mae eu bywydau yn cael eu difetha gan gamdriniaeth. Gwaethygir unigedd cymdeithasol pan fydd pobl hŷn yn amharod i fynd allan oherwydd ofn troseddu, pan nad yw'r cyfleusterau lleol megis siopau a swyddfeydd post yn ddigonol, a phan fydd y ddarpariaeth drafnidiaeth yn wael.
- Adlewyrchir **diffyg lles materol** yn incwm is llawer o bobl hŷn a'r risg uwch y byddant yn syrthio i dlodi. Mae hyn ar ei ben ei hun yn cael cryn effaith ar ansawdd eu bywyd. Mae tai annigonol neu amhriodol yn broblem arall. Gall y rhain, ynghyd ag unigedd cymdeithasol, wneud eu bywydau yn ddiflas.
- Mae **cael gafael ar ofal iechyd a chymdeithasol priodol** yn broblem arall y cyfeirir ati gan lawer o bobl hŷn a gall hyn fod yn broblem benodol i bobl wrth iddynt fynd yn eiddil.

1.5 Yng ngoleuni materion o'r fath rydym yn cydnabod yr her sylweddol sy'n gysylltiedig â newidiadau demograffig. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru lle mae gennym gyfran fawr o bobl hŷn. Mae cyfraddau genedigaethau wedi bod yn gostwng tra rhagwelir y bydd y disgwyliad oes ar gyfer dynion yn codi o 76.4 o flynyddoedd yn 2004 i 80.3 o flynyddoedd yn 2024 ac ar gyfer menywod o 80.7 o flynyddoedd i 84.0 o flynyddoedd yn yr un cyfnod. Bydd cyfran gynyddol o'r boblogaeth o oedran pensiynadwy.

1.6 Mae'r **cynnydd y nifer y cyfarchion pen-blwydd a anfonir gan y frenhines** yn dangos bod y boblogaeth yn heneiddio. Yn 1917, anfonodd y Brenin Siôr V 24 o delegramau i longyfarch pawb a oedd yn dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed y flwyddyn honno. Mae'r traddodiad wedi parhau ac yn 1952, ym mlwyddyn gyntaf ei theyrnasiad, anfonodd y Frenhines Elisabeth II 200 o delegramau. Yn 2007, anfonodd 4,623 o negeseuon o longyfarchiadau, sydd bellach ar ffurf cardiau pen-blwydd. Ar sail yr amcanestyniadau poblogaeth, rhagwelir erbyn 2031 y bydd bron 40,000 o bobl ym Mhrydain dros 100 mlwydd oed.

1.7 Mae *Pan fwyf yn hen a pharchus*…, yr adroddiad a fu'n sail i'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, yn nodi bod 'pobl hŷn fel arfer yn cael eu hystyried yng nghyd-destun eu gorffennol yn hytrach na'u dyfodol'. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i bobl symud drwy eu 70au. Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth gyflwyno'r Strategaeth, oedd cydnabod pobl hŷn a diogelu eu dyfodol. Mae'r bennod hon yn adolygu prif nodweddion a llwyddiannau cyfnod cyntaf y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn o 2003 i 2008. Wedyn mae'n nodi'r prosesau sydd ynghlwm wrth ddatblygu ail gyfnod y Strategaeth a fydd yn cwmpasu 2008 - 2013.

Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, 2003-2008

1.8 Drwy'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru **fframwaith cyffredinol** ar gyfer datblygu polisïau sy'n berthnasol i bobl hŷn. **Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi chwarae rhan ganolog yn y gwaith o weithredu'r Strategaeth. Mae'n chwarae'r brif ran wrth ei datblygu** drwy strategaethau a chynlluniau wedi'u teilwra sy'n diwallu anghenion lleol a nodwyd gan bobl dros 50 oed.

1.9 Cyflawnir hyn drwy **Strategaethau Cymunedol, Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynlluniau Datblygu Lleol**. Caiff y rhain eu llunio mewn partneriaeth â'r GIG, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol a thrigolion lleol gan gynnwys, wrth gwrs, bobl hŷn eu hunain. Dyrannwyd wyth deg y cant o'r arian ar gyfer y Strategaeth a glustnodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol i lunio a gweithredu polisïau o fewn y fframwaith cenedlaethol cyffredinol, tra'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Darparwyd arian hefyd ar gyfer y sector gwirfoddol.

1.10 Yn y pum mlynedd gyntaf, **prif nodau'r Strategaeth fu codi ymwybyddiaeth o bryderon pobl hŷn a sefydlu prosesau a strwythurau a fydd yn helpu i sicrhau gweithredu hirdymor**. Mae hyn yn anelu at newid y delweddau o bobl hŷn a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu mentrau yn ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol, cymunedau cryf, a lles materol, fel y byddant yn dylanwadu ar bolisi a gwaith datblygu gwasanaethau lleol a chenedlaethol. Fel hyn, mae'r Strategaeth yn cyfrannu at iechyd, lles ac annibyniaeth pobl hŷn.

Cynnwys Pobl Hŷn yn Lleol

1.11 **Hyrwyddo cynnwys pobl hŷn fu un o brif ffocysau cyfnod cyntaf y Strategaeth o 2003 i 2008** ac mae Cydgysylltwyr awdurdodau lleol wedi chwarae rhan ganolog yn hyn o beth. Hwy fu craidd y Strategaeth o ran creu cysylltiadau rhwng pobl hŷn a'r Cynghorau, yn ogystal â gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid yn y gymuned leol. Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf sefydlwyd dros 50 o fforymau ledled Cymru. Hwyluswyd llawer ohonynt gan Gydgysylltwyr lleol sy'n cael eu hariannu gan grant y Cynulliad i awdurdodau lleol.

1.12 Ar ben hynny, ceir grwpiau pobl hŷn a fodolai eisoes a grwpiau eraill a hwyluswyd yn fwy diweddar gan sefydliadau gwirfoddol. Mae rhaglen Help the Aged 'Llefaru Dros Ein Hoed' a phrosiect 'EngAge' a arweiniwyd gan Age Concern Cymru yn haeddu sylw yn hyn o beth ac mae'r ddau wedi cael arian gan Lywodraeth y Cynulliad. Saif y gwahanol grwpiau hyn ochr yn ochr ag amrywiaeth o sefydliadau diddordeb arbennig sydd yn aml yn gysylltiedig â fforymau 50+. Mae rhai pobl hŷn o'r farn mai'r her nesaf yw creu cysylltiadau rhwng grwpiau lleol er mwyn cael darlun o bryderon cyffredin pobl hŷn yng Nghymru.

1.13 **Am mai awdurdodau lleol sy'n datblygu polisi o fewn y fframwaith strategol cyffredinol a nodwyd gan Gynulliad Cymru, mae'n hanfodol sicrhau lefel uchel o gyfranogiad gan bobl hŷn yn lleol.** Mae pob awdurdod lleol wedi penodi 'Eiriolwr' dros Bobl Hŷn, sydd yn aml yn Aelod o'r Cabinet a all siarad dros bryderon pobl hŷn mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion. Mae'r Cydgysylltwyr lleol a benodwyd o dan delerau'r Strategaeth i hwyluso'r broses o gynnwys pobl hŷn wedi'u lleoli yn Swyddfa'r Prif Weithredwr neu rywle arall yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.14 Mae rhai awdurdodau lleol wedi ennill gwobrau Rhagoriaeth Cymru am eu gwaith wrth weithredu'r Strategaeth a sefydlu fforymau 50+ a phrosesau cyfathrebu dwyffordd rhwng y Cyngor a phobl hŷn. Mewn sawl achos, mae cynrychiolwyr fforymau 50+ yn eistedd ar bwyllgorau gwneud penderfyniadau a chraffu allweddol. Wrth gwrs, nid dyma'r unig ffordd y gall pobl hŷn gael gwrandawiad, ond mae'n sefydlu strwythurau ffurfiol. Gellir defnyddio dulliau dylanwadu eraill yn greadigol hefyd.

1.15 **Mae pobl hŷn wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cyrff gwirfoddol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill ar amrywiaeth eang o faterion.** Ymhlith y rhain mae mentrau yn ymwneud â:

- gwerthfawrogi pobl hŷn a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol - trafnidiaeth, cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, gweithgareddau ar gyfer pontio'r cenedlaethau, a diogelwch yn y cartref a'r gymuned;
- statws economaidd a chyfraniadau pobl hŷn - gweithgarwch economaidd, cynyddu incwm i'r eithaf, hyfforddiant ar gyfer swyddi, cymorth i ofalwyr, a gwella gweithgareddau gwirfoddoli;
- atal - hybu iechyd, atal syrthio, a chynlluniau sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol megis cynnal a chadw'r cartref a thechnoleg gynorthwyol.

Caiff y rhain eu datblygu ymhellach a byddant yn parhau yn ystod ail gyfnod y Strategaeth.

1.16 **Gan fod disgresiwn lleol ynghylch y modd y defnyddir arian y Strategaeth, mae'n bwysig bod pobl hŷn yn sicrhau bod eu problemau a'u pryderon yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i'r awdurdod lleol.** Bydd hyn yn hanfodol o 2010 pan na fydd arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei glustnodi'n benodol mwyach ar gyfer y Strategaeth, ond ei drosglwyddo i Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol. Felly, mae creu strwythurau cynaliadwy i roi llais parhaus i bobl hŷn yn arbennig o bwysig.

1.17 **Ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli** sy'n aros gyda Llywodraeth y DU - sef polisi cyflogaeth, treth, pensiynau a budd-daliadau yn bennaf - mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU. Gall pobl hŷn gyflwyno achos cryf i'w Haelodau Seneddol a Gweinidogion yn San Steffan yn ogystal ag annog eu Haelodau Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i ddylanwadu ar lefel y DU.

1.18 **Yn genedlaethol**, gall pobl hŷn hysbysu'r Cynulliad o'u barn a gweithio drwy Weinidogion ac Aelodau'r Cynulliad. Mae'r fframweithiau cenedlaethol ar gyfer dysgu cymunedol a chodi tâl am ofal yn enghreifftiau o faterion lle y gwneir penderfyniadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd yn ystyried materion o bwys cenedlaethol sy'n ymwneud â phobl hŷn.

Strwythurau Cenedlaethol

1.19 Fel arwydd o'i hymrwymiad i bobl hŷn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penodi **Gweinidog â chyfrifoldebau penodol dros bobl hŷn**. Mae hefyd wedi sefydlu **Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol** annibynnol i gynghori Llywodraeth y Cynulliad ar ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â phobl hŷn. Am fod ei aelodau yn cael eu penodi drwy broses penodiadau cyhoeddus, mae'r Fforwm yn cynnwys aelodau lleyg, cynrychiolwyr o sefydliadau pobl hŷn, sefydliadau gwirfoddol, llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd a grwpiau rhanddeiliaid eraill a chanddynt amrywiaeth eang o arbenigedd.

1.20 Yn ystod cyfnod cyntaf y Strategaeth llwyddwyd i basio deddfwriaeth drwy'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i benodi **Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru**; y swydd gyntaf o'i bath yn Ewrop ac, o bosibl, y tu hwnt i Ewrop.

1.21 Mae cyrff cymorth cenedlaethol eraill wedi chwarae rhan allweddol ym mhum mlynedd gyntaf y Strategaeth:

- Mae **Cynghrair Henoed Cymru** yn gynghrair o sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio yng Nghymru. Mae wedi lledaenu gwybodaeth i'r sector gwirfoddol, wedi ariannu prosiectau enghreifftiol, wedi noddi cyhoeddiadau a threfnu digwyddiadau rhanbarthol yn seiliedig ar faterion sy'n ymwneud â'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn.
- Bu **Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru** yn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu partneriaethau o fewn y Strategaeth ac yn cynnig gwasanaethau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion a nodwyd ym mhob awdurdod. Mae hefyd wedi datblygu Prosiect Ymgysylltu â Chydgysylltwyr i ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o hyrwyddo ymgysylltu ymhlith pobl dros 50 oed.
- Datblygodd **Llywodraeth Well i Bobl Hŷn Cymru** rwydweithiau cenedlaethol o Gydgysylltwyr, Hyrwyddwyr a Fforymau 50+ a bu'n lledaenu arfer da ac yn gweithredu fel sianel gyfathrebu rhwng y rhwydweithiau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mandad **Sefydliad Beth Johnson** oedd arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer pontio'r cenedlaethau. Ar ben hynny, mae wedi sefydlu **Canolfan Cymru ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau** mewn partneriaeth â Phrifysgol Morgannwg ac mae hyn wedi chwarae rhan bwysig wrth ddarparu hyfforddiant a lledaenu gwybodaeth.

Polisïau Newydd

1.22 Yn ystod cyfnod cyntaf y Strategaeth o 2003 i 2008, cafwyd nifer o ddatblygiadau polisi pwysig sy'n effeithio ar bobl hŷn. Mae cyflwyno **deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail oedran** drwy'r Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) (2006) yn mynd i'r afael â llawer o wahaniaethu ar sail oedran ym meysydd cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol. Mae *Cynllun Oes* (2005) yn disgrifio'r math o **wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol** y gall pobl Cymru eu disgwyl erbyn 2015 a sut y gellir eu datblygu. Mae *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* (2007) yn Strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer **gwasanaethau cymdeithasol** yng Nghymru.

1.23 Yn 2006, sefydlodd y **Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn** (NSF) safonau a gwasanaethau cenedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n seiliedig ar ddeg safon:

- dileu gwahaniaethu ar sail oedran;
- darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- hybu iechyd a lles;
- herio dibyniaeth;
- gofal canolraddol;
- gofal yn yr ysbyty;
- strôc;
- cwympo a thorri esgyrn;
- iechyd meddwl ymhlith pobl hŷn;
- meddyginiaethau a phobl hŷn.

1.24 Ategir yr NSF ar gyfer Pobl Hŷn gan y **Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach** (2005) sy'n rhoi canllawiau yn lleol ar ymyriadau i hybu iechyd a lles pobl hŷn. 'Dringo'n Uwch' a 'Dringo'n Uwch-Y Camau Nesaf' yw strategaeth y Llywodraeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n hyrwyddo nifer fawr o fentrau cymunedol y bwriedir iddynt annog oedolion i fod yn fwy gweithgar yn gorfforol.

Un o raglenni allweddol y strategaeth yw **nofio am ddim i bobl 60+**, sy'n dwyn manteision iechyd a manteision cymdeithasol i bobl dros 60 oed. Mae **teithiau bws am ddim** wedi'i gwneud yn haws i bobl hŷn gyflawni eu gweithgareddau pob dydd a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol ac mae wedi helpu i atal gostyngiad hirdymor yn nifer y teithiau teithwyr bws. Mae **Cysyllt-oed Yng Nghymru** wedi cymryd camau pwysig i sicrhau bod pobl hŷn yn hawlio'u hawliadau pensiwn a budd-daliadau i gyd a bydd yr ymdrechion hyn yn parhau yn ystod ail gyfnod y Strategaeth.

1.25 **Mae'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn wedi'i seilio'n gadarn ar ymchwil** ac fe ddarparodd y dystiolaeth ar gyfer datblygiad cynnar y Strategaeth. Parhawyd â'r gwaith hwn yng Nghyfnod 1 a oedd yn cynnwys ymchwil bellach i bobl hŷn o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn hoyw, lesbaidd, deurywiol a thrawsrywiol, yn ogystal ag incwm pobl hŷn.

1.26 **Cyflawnwyd cryn dipyn yn ystod pum mlynedd gyntaf y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ac mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu'r ail gyfnod**. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal gwerthusiad annibynnol o flynyddoedd cynnar y Strategaeth ac mae canlyniadau'r gwerthusiad hwn ar gael drwy'r manylion cyswllt ar ddiwedd y bennod hon neu yn http://newydd.cymru.gov.uk/topics/olderpeople/strategy/?lang=cy.

Cyfnod Dau y Strategaeth: 2008-2013

1.27 Bu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn gyfrwng newid pwysig, ac eto mae llawer o'r materion y mae'n mynd i'r afael â hwy - a gysylltir yn aml â **rhagfarn ar sail oed a gwahaniaethu - yn rhan annatod o'r fframwaith cymdeithasol ac maent yn gwrthsefyll newid**. Dyma pam y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i strategaeth 10 mlynedd, er mwyn hyrwyddo prosesau a pholisïau a fydd yn ategu camau gweithredu tymor hwy i newid bywydau pobl hŷn. Un o brif ffocysau cyfnod cyntaf y Strategaeth fu sefydlu prosesau i hwyluso ymgysylltu â phobl dros 50 oed; mynegiant o ddinasyddiaeth drwy gyfranogi. Fel y gwelwyd, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyflwyno fframweithiau polisi i fynd i'r afael ag iechyd a lles pobl hŷn. Mae'r rhain wedi ysgogi amrywiaeth eang o weithgarwch yn lleol i weithredu nodau ac amcanion y Strategaeth.

1.28 Bydd ail gyfnod y Strategaeth yn canolbwyntio ar **bwysigrwydd ystyried pobl hŷn ym MHOB maes polisi**. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'prif ffrydio'. Yn ogystal â mynd i'r afael â heriau parhaus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, bydd y Strategaeth yn annog awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i adeiladu ar waith sydd eisoes yn mynd rhagddo ac yn rhoi sylw pellach i bryderon pobl dros 50 oed mewn meysydd megis, rheoliadau cynllunio ac adeiladu, datblygu economaidd, addysg a datblygu sgiliau, trafnidiaeth, tai a chynyddu incwm i'r eithaf.

1.29 **Dangosir y blaenoriaethau a bennwyd gan Gabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru** yn Atodiad 1. Maent yn cydnabod yr amrywiaeth eang o faterion sy'n bwysig i bobl hŷn ac yn adeiladu ar ymchwil ar benderfynyddion cymdeithasol ac economaidd iechyd a lles. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd lleol 'brif ffrydio' pryderon pobl hŷn mewn Strategaethau Cymunedol, Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a Chynlluniau Datblygu Lleol. Rhoddir 'Rhesymoli Cynlluniau', y fframwaith newydd ar gyfer rhaglenni llywodraeth leol â'r strategaethau lefel uchel hyn ar waith yn 2008-09. Ym mis Ebrill 2008 cynhelir yr ail gylch o Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a lunnir ac a weithredir ar y cyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

1.30 **Mae Cyfnod Dau y Strategaeth yn ffrwyth gwaith ymgynghori eang ac mae'n parhau i fod yn seiliedig ar ymchwil**. Ym mis Hydref 2006, sefydlodd Lywodraeth Cynulliad Cymru Grŵp Cynghori 'Gorchwyl a Gorffen' ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru i wneud argymhellion ynghylch i ba gyfeiriad y dylai'r Strategaeth fynd yn y dyfodol. Cynhwysai'r Grŵp Cynghori bobl hŷn a sefydliadau pobl hŷn yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau partner eraill. Yn ei drafodaethau ystyriodd:

- adroddiad gwerthuso annibynnol ar gyfnod cyntaf y Strategaeth;
- canlyniadau ymgynghoriad ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer pum mlynedd nesaf y Strategaeth;
- canfyddiadau o grwpiau ffocws a gynhwysai dros 150 o bobl hŷn gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd penodol megis pobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol hŷn a phobl hŷn o leiafrifoedd ethnig;

- papurau polisi a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- papurau ymchwil cefndir.

1.31 Cwblhaodd y Grŵp Cynghori ei waith drwy lunio adroddiad, *Byw'n Hirach ac yn Well*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007. Dosbarthwyd yr adroddiad er mwyn ymgynghori arno i amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau pobl hŷn. Cafwyd cyfanswm o 88 o ymatebion gan unigolion a grwpiau ledled Cymru a gyflwynodd sylwadau ar yr argymhellion, y themâu a'r prif amcanion strategol arfaethedig. Mae'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru: 2008-2013* yn seiliedig ar y gwaith a'r dystiolaeth a ystyriwyd gan y Grŵp Cynghori a'r broses ymgynghori gynhwysfawr ynghylch ei adroddiad. Felly seiliwyd y blaenoriaethau ar gyfer ail gyfnod y Strategaeth ar feysydd gweithredu a nodwyd gan bobl hŷn a'u cynrychiolwyr a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.

1.32 **Mae'r Penodau canlynol yn canolbwyntio ar y pedair prif thema strategol a gadarnhawyd gan y broses ymgynghori.** Yn fras, maent yn adlewyrchu penderfynyddion iechyd a lles allweddol: cynhwysiant cymdeithasol, lles materol, heneiddio'n iach ac yn weithgar a'r gallu i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol priodol.

1.33 Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y Strategaeth hon neu os hoffech gyfrannu at y broses o'i gweithredu, ysgrifennwch at Andrea Nicholas-Jones, Y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
Ffôn 029 2082 5191 neu
e-bost Andrea.Nicholas-Jones@Wales.gsi.gov.uk.

Pennod 2

Gwerthfawrogi Pobl Hŷn: Cynnal a Datblygu Ymgysylltu

2.1 Dau o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar iechyd a lles yw hunanddelwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o gynhwysiant cymdeithasol, fel rhan o rwydwaith o deulu, ffrindiau a chymuned. Mae'n anodd cynnal y rhain pan bortreadir y broses heneiddio yn negyddol a phan fydd pobl hŷn yn wynebu gwahaniaethu a rhwystrau i sefydlu neu gynnal perthnasau â phobl eraill. Mae'r materion hyn wrth wraidd yr amcanion strategol a drafodir yn y bennod hon.

Nod Strategol

Hyrwyddo delweddau cadarnhaol o heneiddio a sicrhau y gall pobl dros 50 oed chwarae rhan mor llawn ag y dymunant yn eu cymunedau, gan roi ymdeimlad cryfach o ymgysylltiad a dylanwad iddynt.

Amcanion Strategol

- Datblygu dulliau gweithredu yng Nghymru a fydd yn hyrwyddo delwedd fwy cadarnhaol o bobl hŷn.
- Cynyddu cyfranogiad pobl hŷn mewn cymdeithas ac ar bob lefel o lywodraeth, yn arbennig wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau lleol.
- Sicrhau gwell dealltwriaeth a pharch rhwng y cenedlaethau.
- Atal gwahaniaethu ar sail oed.
- Cynyddu cyfranogiad pobl dros 50 oed yn eu cymunedau, gan hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

Polisïau a Rhaglenni

Cyfrifoldeb

2.2 Bydd nifer o adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain y gwaith o weithredu'r polisïau a'r rhaglenni a drafodir yn y bennod hon: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Cynllunio; Y Gyfarwyddiaeth Dai; Adran yr Economi a Thrafnidiaeth; a Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Mewn sawl achos, Llywodraeth y Cynulliad sy'n pennu'r fframwaith strategol ac awdurdodau lleol a'u partneriaid sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisïau drwy eu Strategaeth Gymunedol, eu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'u Cynllun Datblygu Lleol.

Y Comisiynydd Pobl Hŷn

2.3 Unwaith eto mae Cymru wedi arwain y ffordd a gosod esiampl i eraill ei dilyn. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant a Chymru yn awr yw'r gyntaf i benodi Comisiynydd i hyrwyddo buddiannau pobl hŷn. Drwy broses Penodiadau Cyhoeddus y cymerodd pobl hŷn ran uniongyrchol ynddi, penodwyd Ruth Marks gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel y **Comisiynydd Pobl Hŷn cyntaf yng Nghymru**. **Mae'r Comisiynydd yn annibynnol a'i rôl fydd sicrhau bod buddiannau pobl yng Nghymru sy'n 60 oed neu drosodd yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo.**

2.4 Mae swydd y Comisiynydd yn arwydd o'r parch mawr sydd gennym at bobl hŷn yng Nghymru; bydd yn helpu i ddiogelu eu buddiannau a chodi eu proffil. Bydd y Comisiynydd yn ffynhonnell o wybodaeth, eiriolaeth a chymorth i bobl hŷn. Yn ogystal â chynrychioli eu buddiannau yn gyffredinol, bydd yn gallu ymchwilio i achosion pobl hŷn unigol os byddant yn codi materion sy'n effeithio ar bobl hŷn eraill. Gall ystyried yr effeithiau y mae cyrff cyhoeddus, megis Llywodraeth y Cynulliad a'r GIG, yn eu cael ar bobl hŷn a gall gyhoeddi adroddiadau gydag argymhellion ar gyfer newid. Bydd yn gallu edrych ar ddarparwyr y gwasanaethau gofal a reoleiddir gan Lywodraeth y Cynulliad ledled Cymru a gallai, er enghraifft, ddwyn awdurdodau lleol neu gyrff iechyd i gyfrif.

Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol

2.5 **Mae cynhwysiant cymdeithasol yn elfen allweddol o ansawdd bywyd, iechyd a lles pobl hŷn**. Sicrheir cynhwysiant cymdeithasol mewn nifer o ffyrdd. Yn y bennod hon rydym yn canolbwyntio ar hyrwyddo delweddau cadarnhaol o bobl hŷn, annog digwyddiadau diwylliannol a chydweithredu rhwng y cenedlaethau, a mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed. Mae'r rhain i gyd yn gwrthbwyso unigedd a sefyllfa ymylol rhai pobl hŷn. Ar ben hynny, mae trafnidiaeth yn ei gwneud yn bosibl i bobl fynd allan, mae amgylchedd diogel a gynlluniwyd yn dda yn sicrhau na chaiff pobl hŷn eu rhwystro rhag mynd allan, tra bod y newid i deledu digidol, a datblygu sgiliau TG ymhlith pobl dros 50 oed yn eu helpu i gadw mewn cysylltiad. Trafodir cyflogaeth, dysgu gydol oes a gwirfoddoli ym Mhennod 3, a thai ac iechyd a heneiddio'n weithgar ym Mhennod 4.

2.6 Mae *Cymru'n Un* (2007) yn nodi agenda Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer newid a'r ffaith ei bod yn benderfynol o adfywio cymunedau ledled Cymru. ‘Byddwn yn grymuso pobl i ailadeiladu gwead cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu cymunedau a byddwn yn cynnal cysylltiadau cadarnhaol a phwrpasol â chynrychiolwyr cymunedau.’ Bydd nifer o'r elfennau o weithgarwch adfywio yn helpu pobl hŷn i deimlo'n fwy cartrefol yn eu cymdogaethau. Atgyfnerthir hyn gan fentrau megis Swyddogion Cymorth Cymunedol a chynlluniau Gwarchod Cymdogaeth sy'n helpu i leihau troseddu ac ymddygiad bygythiol yn ogystal â lleihau ofn troseddu ymhlith pobl hŷn. Rydym yn cymeradwyo gwaith y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac yn eu hannog i ystyried pryderon pobl hŷn ynghylch diogelwch cymdogaethau.

2.7 Mae *Cymru'n Un* hefyd yn cynnwys ymrwymiad i adeiladu ar lwyddiant mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd a'n horielau Cenedlaethol a rhoi **mynediad am ddim** i bensiynwyr Cymru **i safleoedd treftadaeth a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad**. Mae hyn, hefyd, yn ymestyn byd cymdeithasol pobl hŷn.

2.8 Mae gwella mynediad i wasanaethau cyhoeddus hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod pob person hŷn yn gallu cyfranogi ac ymgysylltu. Byddwn yn datblygu achos busnes ar gyfer y dull gorau o weithredu, a’r costau cysylltiedig,

er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno un ‘cerdyn clyfar’ ar gyfer pobl hŷn wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a bysiau lleol.

Hyrwyddo delwedd fwy cadarnhaol o bobl hŷn

2.9 Yn ogystal â chreu swydd Comisiynydd Pobl Hŷn, **bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio dulliau eraill o greu delweddau mwy cadarnhaol o bobl dros 50 oed**. Byddwn yn sicrhau bod pob dogfen fewnol a chyhoeddus yn defnyddio iaith nad yw'n stereoteipio pobl hŷn. Byddem yn disgwyl i'r cyfryngau amrywio eu hymdriniaeth o bobl dros 50 oed, gan symud i ffwrdd o ddelweddau ystrydebol a dangos eu holl gyfraniadau economaidd a chymdeithasol. Mae'n gamarweiniol portreadu pobl hŷn fel pobl eiddil a defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.

2.10 Mae **digwyddiadau diwylliannol** hefyd yn bwysig i ddangos yr hyn y mae pobl dros 50 oed wedi'i gyflawni a bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i'w hyrwyddo yn ogystal â'r gweithgareddau sy'n rhan ohonynt. Un digwyddiad o'r fath yw Gwanwyn, gŵyl sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau a phrosiectau celfyddydau gyda phobl hŷn. Yn ei blwyddyn gyntaf ym mis Mai 2007, cynhaliwyd dros 120 o ddigwyddiadau ledled Cymru, gan gwmpasu llawer o gyfryngau artistig. Tynnodd sylw at dalentau creadigol pobl hŷn drwy gyfrwng perfformiadau dawns, drama a cherddoriaeth, ac arddangosfeydd paentio, ffotograffiaeth, gwaith tapestri a cherfio pren. Ysgrifennodd bardd cenedlaethol Cymru, Gwyn Thomas, gerdd ar gyfer yr ŵyl sydd wedi'i hatgynhyrchu tua dechrau'r ddogfen Strategaeth hon. **Mae Gŵyl Gwanwyn yn seiliedig ar dystiolaeth o'r effaith gadarnhaol y mae cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau yn ei chael ar iechyd a lles emosiynol, a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr ŵyl i herio stereoteipiau negyddol o heneiddio**.

Ymgysylltu

2.11 **Datblygwyd amrywiaeth eang o fforymau mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru i gynrychioli pryderon pobl dros 50 oed**. Mae Cydgysylltwyr y Strategaeth wedi hwyluso fforymau neu rwydweithiau o fewn awdurdodau lleol

ac mae rhai awdurdodau wedi ennill gwobrau Rhagoriaeth Cymru ar gyfer y gwaith hwn. Cefnogwyd fforymau eraill gan sefydliadau gwirfoddol. Yn wir, mae sefydliadau gwirfoddol wedi chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwahanol fathau o gymorth ar gyfer pobl hŷn yn lleol. Mae'r amrywiaeth hwn yn bwysig a dylid atgyfnerthu sianelau cyfathrebu a chydweithredu yn ystod ail gyfnod y Strategaeth, a chreu cysylltiadau cryfach rhwng y gwahanol fathau o fforymau.

2.12 Wrth ymestyn gwaith ymgysylltu â phobl dros 50 oed, bydd yn ddefnyddiol ystyried yr hyn a gyflawnwyd, sut y gellid rhannu arfer gorau a pha fylchau a erys. Ar ben hynny, gall ymchwil newydd i hyrwyddo ymgysylltu sydd wedi deillio o gyfnod cyntaf y Strategaeth, fod o gymorth wrth ystyried y ffordd orau o atgyfnerthu cyfranogiad pobl hŷn. **Gan weithio gyda CLILC, awdurdodau lleol, y sectorau gwirfoddol a phreifat a phobl hŷn, byddwn yn datblygu polisïau ymhellach er mwyn:**

- Mynd i'r afael â rhwystrau i gynnwys pobl dros 50 yn effeithiol.
- Ehangu cyfranogiad a chynyddu gwaith ymgysylltu, gan ddefnyddio amrywiol ffyrdd o gyrraedd pobl dros 50 oed.
- Cyrraedd grwpiau nas clywir yn aml.
- Adolygu anghenion hyfforddi pobl hŷn i sicrhau ymgysylltu llawnach.

2.13 **Gan weithio ochr yn ochr â'n partneriaid, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn llunio canllawiau ar gyfranogiad ystyrlon ac effeithiol pobl hŷn**. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r argymhellion a wnaed yn *Creu'r Cysylltiadau* ar gynnwys dinasyddion, sydd wedi'u teilwra i adlewyrchu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a phryderon pobl hŷn eu hunain. Cyhoeddir canllawiau erbyn gwanwyn 2009 ac fe'u trosglwyddir i bawb yn Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymgynghori â phobl hŷn. **Wrth ymgysylltu â phobl hŷn a darparu gwasanaethau ar eu cyfer, mae'n hanfodol y rhoddir sylw i'w hanghenion o ran yr iaith Gymraeg**.

Hyrwyddo arferion pontio'r cenedlaethau

2.14 Mae'n bwysig sicrhau bod dealltwriaeth a pharch rhwng cenedlaethau. **Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o bobl dros 50 oed drwy weithgareddau pontio'r cenedlaethau sy'n cynnwys**

pobl iau a phobl hŷn. Rydym yn cymeradwyo'r gwaith y mae Sefydliad Beth Johnson a Chanolfan Cymru ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn, darparu hyfforddiant a rhoi cyngor ar weithgareddau penodol. Gan weithio gyda phobl hen ac ifanc a'u cyrff cynrychioliadol bydd y Cynulliad yn datblygu **Strategaeth ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau**. Cyhoeddir Strategaeth ddrafft er mwyn ymgynghori arni yn ystod hydref 2008.

Atal gwahaniaethu ar sail oed

2.15 **Mae gwahaniaethu ar sail oed a hawliau dynol yn themâu canolog yn y cyfnod hwn o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn**. Bydd cydraddoldeb wrth wraidd ein holl waith o'r cychwyn. Bydd yn prif ffrydio cydraddoldeb drwy holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn profi pob un o'n polisïau strategol yn erbyn deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail oed. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl a bydd oedran yn elfen graidd o'r cynllun hwn.

2.16 Bydd Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol Llywodraeth y Cynulliad yn darparu offer a chymorth strategol er mwyn i adrannau ddatblygu'r cynllun. Rydym wedi datblygu model o bolisi sy'n ystyried cydraddoldebau a hawliau dynol. Bydd hyn yn rhan o'r offer 'porth polisi' ac 'integreiddio polisi' sy'n brosesau a sefydlwyd gennym i sgrinio polisïau yn gynnar yn y broses o'u datblygu. Yn yr achosion hynny lle y tybir bod angen asesiad llawn, bydd yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn helpu adrannau Llywodraeth y Cynulliad i gydgysylltu trafodaeth, gan ddod ag arbenigwyr allanol i mewn i herio a chynghori yn ôl yr angen.

Trafnidiaeth

2.17 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod **trafnidiaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau y gall pobl gael bywyd cymdeithasol gweithgar a chael gafael ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt, gan hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a bywyd cymunedol**. Fel y nodwyd yn *Cymru'n Un*, mae'r rhan fwyaf o deithiau yn rhai lleol - mynd i siopa, mynd â'r plant i'r ysgol, mynd i'r gwaith neu gadw apwyntiadau ysbyty. Mae hygyrchedd da o ran trafnidiaeth yn bwysig i bawb,

yn arbennig grwpiau mwy difreintiedig. Nid oes car ar gael i bobl hŷn bob amser ac maent yn arbennig o ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn iddynt allu defnyddio gwasanaethau pob dydd.

2.18 Mae'r fersiwn diweddaraf o'r Strategaeth Drafnidiaeth 'Cysylltu Cymru' yn nodi bod **mwy i hygyrchedd na sicrhau bod trafnidiaeth ar gael a'i bod am ddim i bobl hŷn**. Mae hefyd yn ymwneud ag amseriad, dibynadwyedd a chyfleustra trafnidiaeth gyhoeddus, lleoliad cyfleusterau allweddol, a yw pobl yn byw yn agos atynt, a oes angen iddynt deithio, ac a all cyfleuster gael ei ddefnyddio gan bobl â symudedd cyfyngedig.

2.19 Bydd y Mesur Trafnidiaeth Leol yn gwella gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i **ddarparu gwasanaethau a fydd yn diwallu anghenion lleol**. Ar yr un pryd, bydd yn cynnwys mesurau i ddiddymu'r rheoliadau sydd wedi cyfyngu ar dwf y sector trafnidiaeth gymunedol. Mae gan weithredwyr trafnidiaeth gymunedol ran bwysig i'w chwarae wrth ddarparu gwasanaethau megis trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw na all gweithredwyr bysiau confensiynol ei chynnig. Bydd hyn yn arbennig o fuddiol i ardaloedd mwy gwledig. Disgwylir i'r Mesur Trafnidiaeth Leol gael Cydsyniad Brenhinol yn ddiweddarach yn 2008.

2.20 Byddwn hefyd yn sefydlu **Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus a fydd yn rhoi llais cryfach i deithwyr o ran darparu gwasanaethau trafnidiaeth lleol**; bydd y Pwyllgor yn cynnwys pobl dros 50 oed a all siarad o'u profiad eu hunain am faterion trafnidiaeth.

Teithio ar y trên

2.21 **Gall lleihau rhwystrau ariannol i deithio helpu i wella cynhwysiant cymdeithasol.** Yn ogystal â'r tocyn bws am ddim a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad, rydym wedi ymrwymo i wella'r trefniadau gostyngiadau i bensiynwyr ar drenau (*Cymru'n Un*). Ym mis Mai 2007 fe wnaethom gyflwyno cynlluniau peilot 12 mis sy'n galluogi i ddeiliaid tocynnau bws Cerdyn Cymru sy'n byw yng Nghonwy a Gwynedd, a Sir Gaerfyrddin, Powys, ac Abertawe deithio am ddim ar linellau rheilffyrdd Dyffryn Conwy a Chalon

Cymru. Cwblheir asesiad o gostau a manteision y cynlluniau tocynnau rhatach peilot erbyn 31 Mawrth 2008. Bydd hyn yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch darparu cynlluniau yn y dyfodol.

Datblygu'r amgylchedd adeiledig

2.22 Mae angen ystyried anghenion pobl hŷn wrth i'r broses gynllunio lywio'r defnydd a wneir o dir a'r amgylchedd adeiledig. **Mae'n bwysig bod gwaith cynllunio yn hwyluso ymdeimlad o gymuned ac y gall pobl hŷn ganfod eu ffordd o amgylch eu hamgylcheddau lleol**. Gall gweithgarwch adfywio cymdogaethau, gan gynnwys perthnasau cymdeithasol a chyflyrau tai, ddylanwadu'n fawr ar iechyd a lles. Cydnabyddir hyn yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (07) 067 sy'n nodi bod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'w mentrau tai gael eu hystyried gan bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol pan fyddant yn llunio Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Un o'r dangosyddion newid a ddefnyddir gennym i fesur amgylchiadau cyfnewidiol pobl hŷn yw ansawdd eu tai (gweler Atodiad 3).

2.23 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru, 2002) yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ystyried mater **hygyrchedd** i bawb, gan gynnwys pobl hŷn, yn gynnar yn y broses ddylunio. Mae bellach yn ofyniad statudol bod datganiadau mynediad yn cael eu cyflwyno gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig. Mae'r canllawiau ar waith dylunio cynhwysol yn cynnwys anghenion pawb, gan gynnwys pobl â nam ar eu symudedd, pobl â nam ar eu synhwyrau a phobl ag anawsterau dysgu.

Newid i ddigidol

2.24 **Mae'r teledu yn ddolen gyswllt rhwng llawer o bobl hŷn a'r byd ehangach.** Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio'r DU sy'n gyfrifol am bolisi'r DU ar y newid i ddigidol. Cymru sydd â'r ganran fwyaf o bobl â theledu digidol yn y DU. Ar hyn o bryd fodd bynnag rydym yn cydnabod bod angen rheoli effaith y broses newid i ddigidol yng Nghymru yn ofalus ac felly rydym yn gweithio'n

agos gyda thîm newid i ddigidol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio i sicrhau bod y broses yn rhedeg yn esmwyth pan fydd yn dechrau yng Nghymru yn 2009.

2.25 Bydd Cynllun Cymorth wedi'i Dargedu, a ariennir gan Lywodraeth y DU ac a gaiff ei redeg gan y BBC, ar waith yng Nghymru yn ystod y newid i ddigidol. Bydd yn sicrhau **y bydd y bobl fwyaf difreintiedig yn cael cymorth ymarferol i newid i ddigidol**. Ar ben hynny, bydd Digital UK yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol yng Nghymru i sicrhau bod y bobl hynny y gellir ystyried eu bod yn agored i niwed, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth wedi'i Dargedu, hefyd yn cael cymorth i gael a gosod offer sy'n derbyn digidol ar adeg y newid i ddigidol.

Technoleg gwybodaeth

2.26 **Mae cyrsiau Technoleg Gwybodaeth (TG) yn un o'r meysydd darpariaeth mwyaf poblogaidd ar gyfer dysgwyr dros 50 oed.** Dysgu cymunedol yw'r prif faes darpariaeth sy'n denu dysgwyr hŷn, sy'n rhoi cyfrif am fwy na hanner y rhai sy'n cymryd rhan. Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn datblygu ymagwedd fwy strategol at ddysgu cymunedol i oedolion. Yn ogystal ag atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer cynllunio ac ariannu dysgu cymunedol i oedolion, bydd y strategaeth hefyd yn ceisio cysoni'r maes dysgu hwn ag anghenion dysgu penodol cymunedau eu hunain ac amcanion eraill Llywodraeth y Cynulliad. Ynghyd ag awdurdodau lleol, byddwn yn parhau i geisio sicrhau bod hyfforddiant TG a hyfforddiant yn ymwneud â sgiliau cysylltiedig ar gael i bobl hŷn.

2.27 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i hyrwyddo arfer arloesol i alluogi pobl hŷn i ddod yn fwy medrus wrth ddefnyddio technoleg newydd at ddibenion personol a dibenion yn gysylltiedig â gwaith. Er enghraifft, **mae pob llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru yn darparu mynediad lleol am ddim i gyfrifiaduron a chysylltiadau Rhyngrwyd band eang**. Mae llawer o wasanaethau llyfrgell cyhoeddus hefyd yn darparu sesiynau ‘blasu’ am ddim neu hyfforddiant mewn sgiliau TG sydd wedi'u hanelu at bobl hŷn.

2.28 Nododd Sgiliau Dyfodol Cymru mai TG yw'r sgìl sydd fwyaf tebygol o gynyddu o ran pwysigrwydd yn y dyfodol ond mae anghenion sefydliad o ran y cyfryw sgiliau yn amrywio'n fawr. Mae'r Cyngor Sector e-Sgiliau wedi datblygu **Pasport e-sgiliau y gall pobl ei ddefnyddio i asesu pa sgiliau sydd ganddynt a pha sgiliau sydd eu hangen arnynt**. Gall hyn helpu sefydliadau i ddeall galluoedd eu cyflogeion yn well a thargedu hyfforddiant. Gall unigolion ddefnyddio'r pasport i gofnodi a diweddaru eu sgiliau TG drwy gydol eu bywydau.

2.29 Rydym yn cydnabod bod **mynediad eang i fand eang fforddiadwy, diogel** yn bwysig i unigolion a busnesau ledled Cymru. Mae'n hanfodol y gall y seilwaith telathrebu yng Nghymru ymateb i'r her hon fel y bydd yn gallu helpu i ddatblygu economi lewyrchus a ffyniannus yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio, pan fo hynny'n economaidd ymarferol, darparu gwasanaethau band eang sylfaenol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru na allant gael band eang am amrywiol resymau technegol.

2.30 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio cymorth ariannol yn y cylch presennol o Arian Strwythurol yr UE i annog unigolion a busnesau i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Pan fydd argaeledd a fforddiadwyedd y seilwaith TGCh yn rhwystr sylweddol efallai y bydd modd ystyried atebion seilwaith wedi'u targedu.

2.31 Mae'r bennod ganlynol yn datblygu'r thema o ddatblygu sgiliau, ac yn trafod hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swyddi yng nghyd-destun statws economaidd a chyfraniad pobl hŷn.

Pennod 3

Cymdeithas sy'n Newid: Statws Economaidd a Chyfraniad Pobl Hŷn

3.1 Gall ymestyn bywyd gwaith gael effaith gadarnhaol ar lawer o bobl. **Mae gweithio fel arfer yn gysylltiedig â gwell incwm, gwell ansawdd bywyd, ffyrdd mwy gweithgar o fyw, gwell lles a mwy o ymdeimlad o gynhwysiant cymdeithasol**. Ac eto yng Nghymru mae dros 30% o bobl 50-65 oed yn economaidd anweithgar ac, yn achos llawer ohonynt, nid ydynt yn dewis bod felly. Gall arwain at broblemau ariannol ac anallu i gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad, sy'n creu risg uwch o dlodi yn ddiweddarach yn eu bywydau. Heb hyfforddiant gwaith priodol (mae gan bobl hŷn lai o fynediad i hyfforddiant) gall sgiliau gweithwyr fynd yn ddiwerth. Ar ben hynny, os nad oes unrhyw drefniadau gwaith hyblyg gall fod yn anodd i rai pobl hŷn gyfuno gwaith â'u cyfrifoldebau gofalu.

3.2 **Drwy waith, mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad economaidd sylweddol** (tua 25% o'n hallbwn cenedlaethol) **ac mae hyn yr un mor wir am y rhai sy'n ymwneud â gofalu a gwirfoddoli.** Dengys amcangyfrifon ar gyfer Cymru pe bai gofalwyr yn cael eu talu, byddai'n costio o leiaf £1 biliwn y flwyddyn. Amcangyfrif bod y gofal plant a ddarperir gan deidiau a neiniau yn werth £259 miliwn a bod gweithgarwch gwirfoddoli yn werth £469 miliwn y flwyddyn.

3.3 Yn y bennod hon rydym yn canolbwyntio ar rwystrau i gyflogaeth a ffyrdd eraill o wneud cyfraniad cymdeithasol ac economaidd i gymdeithas yng Nghymru. Rydym hefyd yn ystyried yr amgylchiadau economaidd anodd a wynebir gan gyfran sylweddol o bobl hŷn; mae tlodi ymhlith pensiynwyr yn dal i fod yn broblem sylfaenol.

Nod Strategol

Datblygu polisïau i gynyddu gallu pobl dros 50 oed i barhau i weithio, dysgu, gwirfoddoli a gofalu, gan wneud cyfraniad gweithredol am gyhyd ag y dymunant, a sicrhau nad yw pobl hŷn yn byw mewn tlodi.

Amcanion Strategol

- Cefnogi'r arfer o recriwtio a chadw pobl hŷn a chynyddu gweithgarwch economaidd drwy wella mynediad i swyddi ar gyfer pobl dros 50 oed, gan gynnwys pobl anabl a'r rhai sydd wedi dioddef salwch.
- Galluogi cyflogeion hŷn i ailhyfforddi a gwella eu sgiliau ac, ar ben hynny, trosglwyddo eu sgiliau a'u profiad, yn rhannol drwy ddysgu rhwng y cenedlaethau yn y gweithlu.
- Hyrwyddo arferion gwaith hyblyg i ddarparu ar gyfer gofalwyr a datblygu rhaglenni i sicrhau bod pobl yn symud yn raddol tuag at ymddeoliad.
- Nodi rhwystrau i ddysgu gydol oes a chyflwyno polisïau i'w goresgyn.
- Annog rhaglenni gwirfoddoli sy'n cynnwys pobl dros 50 oed er mwyn ymestyn cyfraniad gweithredol pobl hŷn mewn cymdeithas.
- Datblygu dull integredig o fynd i'r afael â thlodi, gan sicrhau bod polisïau datganoledig yn cael yr effaith fwyaf posibl ar bobl hŷn.

Polisïau a Rhaglenni

Cyfrifoldeb

3.4 Mae'r cyfrifoldeb dros arwain y gwaith o gyflawni'r amcanion strategol hyn yn nwylo nifer o adrannau Llywodraeth y Cynulliad: Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd; a Chyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau). O ran cyfrifoldebau nad ydynt wedi'u datganoli, bydd adrannau Llywodraeth y DU yn arwain, er ein bod yn ceisio dylanwadu ar adrannau'r DU a gweithio mewn partneriaeth agos â hwy.

3.5 **Er mwyn cyflawni'r nodau a amlinellir yma bydd hefyd angen partneriaethau cryf ag awdurdodau lleol, cyflogwyr, undebau llafur, cynrychiolwyr pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill.** Yn arbennig, dylai'r nodau hyn gael eu hadlewyrchu mewn Strategaethau Cymunedol a Chynlluniau Datblygu Lleol.

Cadw gweithwyr hŷn

3.6 Yng ngoleuni'r manteision i bobl dros 50 oed, cyflogwyr, a'r economi ehangach, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Leol i **gefnogi'r arfer o recriwtio a chadw pobl hŷn mewn cyflogaeth**. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o weithredu deddfwriaeth i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed.

3.7 Nid oes mynediad cyfartal i hyfforddiant. Yn 2005, roedd gweithwyr hŷn yn llai tebygol o fod wedi cael hyfforddiant na gweithwyr iau er y disgwylir i nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad waith ostwng. Mae Llywodraeth y Cynulliad am sicrhau y gall cyflogeion ar bob lefel, o bob oed, ac ym mhob sector, fanteisio ar gyfleoedd dysgu. Heb ailhyfforddi, gall sgiliau gweithwyr hŷn fynd yn ddiwerth, gan danseilio arloesedd a chynhyrchiant.

3.8 Bydd dysgu gydol oes yn dod yn fwyfwy pwysig i gynnal a diweddaru sgiliau gweithlu sy'n heneiddio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi gwneud cynnydd: mae dileu'r terfyn oed uchaf ar gyfer Prentisiaethau Modern wedi'i gwneud yn bosibl i lawer o weithwyr hŷn fanteisio arnynt, yn unol â'n hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol. **Byddwn hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr, undebau llafur a chynghorau sgiliau sector i sicrhau y gall gweithwyr hŷn fanteisio ar bob un o'n rhaglenni sgiliau presennol a'r cyfleoedd dysgu newydd, mwy hyblyg** a grëwyd drwy'r Rhaglen Diwygio Cymwysterau Galwedigaethol.

Gwella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth

3.9 Er bod polisi cyflogaeth wedi'i neilltuo i Adran Gwaith a Phensiynau'r DU (DWP), mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda DWP a'r Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion ac amgylchiadau penodol pobl ledled Cymru. **Y Fargen Newydd 50 a throsodd**, rhaglen wirfoddol y bwriedir iddi gynorthwyo'r rhai 50 oed a throsodd a fu'n ddi-waith neu'n cael budd-daliadau ers chwe mis neu ragor, **yw'r fenter gyflogaeth allweddol i helpu pobl hŷn**. Mae'r Fargen Newydd 50 a throsodd yn rhoi help a chymorth ymarferol wedi'i deilwra i unigolion i'w helpu i ddatblygu eu potensial, gan ennill sgiliau a phrofiad, a dod o hyd i swydd a'i chadw. Rhwng 2000 pryd y'i lansiwyd a diwedd 2007, roedd y Fargen Newydd 50 a throsodd wedi helpu dros 12,000 o bobl 50 oed a throsodd yng Nghymru i ddod o hyd i waith.

3.10 Caiff y cynnydd y mae'r Fargen Newydd 50 oed a throsodd yng Nghymru wedi'i wneud ei adolygu yn 2008-09. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n arbennig ar welliannau diweddar gan gynnwys cymorth ychwanegol i helpu pobl 50-59 oed i chwilio am swyddi a gwell cymorth i helpu hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith a'u partneriaid dibynnol 50 oed a throsodd i ddychwelyd i'r gwaith. Mae hyn yn cael ei asesu yng nghyd-destun cynlluniau DWP i gyflwyno dull newydd, hyblyg, personol o helpu'r cwsmeriaid mwyaf difreintiedig. Nodwyd bod gwella cymorth i bobl hŷn yn flaenoriaeth allweddol yn agenda Diwygio Lles DWP.

3.11 Ar ben hynny, mae Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda Chwarae Teg i hyrwyddo cynnydd menywod yn y farchnad waith, gan gynnwys hyrwyddo arferion gwaith hyblyg sy'n **helpu menywod i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl magu plant**.

3.12 Yng nghyd-destun *Sgiliau sy'n gweithio i Gymru*, Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth newydd Cymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu model i wella'r modd y cyflawnir rhaglenni 'O Fudd-dal i Waith' a mesurau sgiliau i godi lefelau gweithgarwch economaidd ledled Cymru. Ymhlith y camau gweithredu allweddol a nodwyd mae mesurau er mwyn **gwella mynediad i swyddi gwag a chyfleoedd ar gyfer grwpiau sydd o dan anfantais yn y farchnad waith, gan gynnwys pobl hŷn**.

3.13 Pan fydd gweithgarwch yn gymwys, bydd hefyd yn bosibl hyrwyddo amcanion y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, drwy sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i brosiectau o Gronfeydd Strwythurol Cydgyfeirio neu Gystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol yr UE 2007-2013, yn arbennig rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop. **Cydnabyddir unigolion di-waith, economaidd anweithgar neu ddifreintiedig hŷn, neu weithwyr hŷn, yn y rhaglenni hyn fel grŵp targed**.

Gwaith ac iechyd

3.14 Gall salwch neu anabledd gyfyngu ar gyfranogiad yn y gweithlu. Mae'r Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd yn gweithredu ar yr ymrwymiadau yn *Cymru'n Un* i wella mynediad i wasanaethau iechyd galwedigaethol fel

rhan o'i rhaglen iechyd yn y gweithle ehangach. Y nod yw **gwella iechyd ac atal salwch yn y gwaith a helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, a chael eu cadw yn y gwaith, yn dilyn salwch neu anaf**.

3.15 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cymryd rhan yn *Strategaeth Iechyd, Gwaith a Lles* y DU sy'n cael ei datblygu mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Adran Iechyd a Llywodraeth yr Alban. Nod y Strategaeth yw **gwella iechyd a lles y boblogaeth oedran gweithio**.

3.16 Ar ben hynny, cawn ein cynrychioli ar Gyngor Adsefydlu newydd y DU sy'n ceisio dod â holl elfennau **gwaith adsefydlu** ynghyd, gan gynnwys dychwelyd i'r gwaith sy'n rhan allweddol o hyn.

3.17 Y mentrau allweddol sy'n cynnig **cymorth i bobl hŷn â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar allu i weithio a hoffai drosglwyddo i gyflogaeth** yw rhaglen 'Llwybrau at Waith' DWP a chyd-brosiect 'Yn Awyddus i Weithio' Llywodraeth Cynulliad Cymru/y Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae 'Llwybrau at Waith' yn gweithredu ar lefel Cymru gyfan a'i brif nod yw helpu pobl sy'n gwneud cais newydd am Fudd-dal Analluogrwydd.
- Bwriedir i brosiect 'Yn Awyddus i Weithio' roi cymorth i bobl a fu'n economaidd anweithgar am gyfnodau hwy (y rhai sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd neu Gymhorthdal Incwm yn bennaf, er nad yw'n gyfyngedig iddynt). Gan fanteisio ar Gymorth Ariannol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, mae 'Yn Awyddus i Weithio' yn gweithredu mewn wardiau dethol mewn sawl ardal awdurdod lleol. Ynghyd â Chanolfan Byd Gwaith Cymru, rydym yn ystyried cynigion i ymestyn y fenter hon ymhellach.

Dysgu gydol oes

3.18 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod manteision ehangach dysgu ar gyfer pawb, gan gynnwys pobl hŷn. Mae'r gwaith parhaus o ddatblygu polisi ar gyfer dysgwyr o bob oed yn cael ei lywio gan amrywiaeth o dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys nodi'r rhwystrau penodol a wynebir gan ddysgwyr hŷn a llunio strategaethau i'w goresgyn. **Yn achos pobl hŷn mae'r rhwystrau i ddysgu yn cynnwys**:

- iechyd gwael ac anabledd;
- cyfrifoldebau gofal sy'n gwrthdaro;
- diffyg gwybodaeth;
- pobl heb fawr ddim cymwysterau os o gwbl;
- cyfleusterau anhygyrch ac anawsterau trafnidiaeth;
- diffyg hyder;
- gwahaniaethu ar sail oed;
- cost darpariaeth.

3.19 Bu'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn datblygu ei hymagwedd strategol tuag at ddysgwyr hŷn. Bydd yn parhau i weithio gyda NIACE Dysgu Cymru i hyrwyddo ei **hymgyrchoedd dysgu i oedolion**, yn benodol 'Cymryd y Llyw', 'Ymunwch Nawr' a'r Wythnos Addysg Oedolion. Mae'r rhain **yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd dysgu** sydd ar gael i oedolion sy'n ddysgwyr, gyda ffocws cynyddol ar bobl hŷn.

3.20 Un o'r rhwystrau a wynebir gan bobl hŷn yw **cost dysgu**. Er nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad bolisi codi tâl ar hyn o bryd, mae'r Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth sydd ar fin gael ei chyhoeddi yn debygol o argymell bod polisi ffioedd yn cael ei fabwysiadau yn y dyfodol. Mae DCELLS wedi datblygu **canllaw cyllido i ddysgwyr sy'n oedolion sy'n rhoi canllawiau cliriach i oedolion, gan gynnwys dysgwyr hŷn, ar y cymorth ariannol a all fod ar gael iddynt**.

3.21 Ar ben hynny mae dysgwyr hŷn yn haen annatod o waith DCELLS ar **strategaeth dysgu cymunedol i oedolion**. Gan gydnabod y rhwystrau a wynebir gan rai dysgwyr, gan gynnwys pobl hŷn mewn llawer o achosion, bydd y gwaith hwn yn ystyried dysgu ffurfiol, anffurfiol a heb ei achredu a gynigir drwy'r llwybr dysgu cymunedol.

Cydnabod ac annog cyfraniadau cymdeithasol pobl dros 50 oed

3.22 Ers datganoli, mae'r sector gwirfoddol wedi dod yn bartner yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad drwy alw ar ymdrechion gwirfoddol, llywio polisi, a darparu gwasanaethau. Fe'i gelwir yn 'drydydd sector' ac yn y dyfodol bydd ei weithgarwch yn cyd-fynd yn agosach

â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Bydd yn pwysleisio gwerth gweithredu gwirfoddol, yn helpu i atgyfnerthu cymunedau, yn rhoi llais i ddinasyddion ac yn cymryd rhan mewn mentrau cymdeithasol.

3.23 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Sector Gwirfoddol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys llunio, lansio a chefnogi **ymgyrch i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr yng Nghymru yn sylweddol a pharhau i'w hyrwyddo, a gwella ansawdd ac effaith profiadau gwirfoddoli**.

3.24 **Mae pobl hŷn hefyd yn gwneud cyfraniadau cymdeithasol ac economaidd sylweddol yn eu rolau fel neiniau a theidiau a hefyd fel gofalwyr ar gyfer eu partneriaid, aelodau o'u teulu neu ffrindiau.** Nododd Adroddiad Llywodraeth y Cynulliad ar *Fod yn Daid a Nain* (2006) y materion. Gall y rôl ofalu fod yn un heriol ac, er ei bod yn werthfawr ac yn rhoi boddhad mewn sawl ffordd, gall gofalwyr gael eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill. Mae gan bobl gyflogedig yr hawl i ofyn i'w cyflogwyr am drefniadau gweithio hyblyg, er nad oes unrhyw rwymedigaeth ar gyflogwyr i gymeradwyo hynny. Yn achos y rhai sy'n ofalwyr amser llawn, gall fod yn anodd dod o hyd i gyflogaeth neu gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol hyd yn oed, ac eto mae'r rhain yn hanfodol i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol, darparu ffocws allanol a ffynhonnell o foddhad, yn ogystal â gwella eu hamgylchiadau ariannol a'u hunan-barch. Mae Strategaeth Gofalwyr Cymru yn cydnabod y cyfryw faterion ac maent yn debygol o lywio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gofalwyr y DU.

Mynd i'r afael â thlodi

3.25 Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisïau pensiynau a budd-daliadau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod problem tlodi ymhlith pobl dros 50 oed ac yn cydnabod pwysigrwydd **pensiynau** i bobl hŷn. Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau â llywodraeth y DU ar y materion hyn.

3.26 O fewn ei phwerau datganoledig mae Llywodraeth y Cynulliad wedi parhau i ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni **i fynd i'r afael â'r tlodi a'r allgáu a wynebir gan grwpiau difreintiedig a phobl sy'n byw yn y cymunedau**

mwyaf difreintiedig. Mae'r rhain yn ceisio cynyddu incwm, annog unigolion i reoli materion ariannol yn well ac ysgogi creu cyfoeth. **Ein hymrwymiad yn *Cymru'n Un* yw rhoi help ychwanegol i bensiynwyr gyda'r dreth gyngor**.

3.27 Yn 2006-07 fe wnaethom ddyrannu £1.5m i awdurdodau lleol i'w helpu yn eu hymdrechion i gael mwy o bobl i hawlio **Budd-dal y Dreth Gyngor**. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar bensiynwyr gan fod amcangyfrifon yr Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos mai'r grŵp hwn oedd leiaf tebygol o'i hawlio. Roedd y cynllun yn llwyddiannus, ond mae yna lawer o bensiynwyr o hyd nad ydynt yn hawlio'r budd-dal. Mae'r Gweinidogion wedi penderfynu buddsoddi mwy o arian mewn cynllun hawlio budd-daliadau ac maent wedi dyrannu £1m y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf (2008-2011). Y tro hwn, bydd y cynllun yn cynnwys Budd-dal Tai yn ogystal â Budd-dal y Dreth Gyngor.

3.28 **Bydd cynyddu incwm cymaint â phosibl yn un o bum thema graidd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru** a gyhoeddir yn ystod hydref 2008. Bydd y Strategaeth yn creu cysylltiadau cryfach a systemau atgyfeirio cliriach rhwng rhanddeiliaid a bydd yn adeiladu ar fentrau sy'n bodoli eisoes megis Cysyllt-Oed Cymru a 'Cyngor Gwell, Iechyd Gwell'. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl hŷn yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt a bod ganddynt wasanaethau cynghori effeithiol. Ystyrir bod pobl hŷn yn grŵp blaenoriaeth ag anghenion arbennig sy'n haeddu sylw penodol.

3.29 Mae *Cymru'n Un* hefyd yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i 'sefydlogi a gweithredu'n llawn y strategaeth sy'n ymwneud â helpu a chydgysylltu gwasanaethau cyngor yng Nghymru, fel bod **cyngor cynhwysfawr ar fudd-daliadau ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol**'. Fel cam cyntaf, mae gwaith i nodi'r bylchau yn y cyngor a ddarperir wedi dechrau a bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried y modd y caiff gwasanaethau cynghori eu darparu yn y dyfodol, fel y nodir yn nogfen polisi'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraeth y Cynulliad *Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Ffaith yng Nghymru* (Medi, 2007). Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, a phartneriaid eraill, i sicrhau bod gwasanaethau cynghori yng Nghymru yn cael eu comisiynu a'u darparu mewn modd sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau pobl ac yn cynorthwyo'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru yn arbennig.

Pennod 4

Lles ac Annibyniaeth

4.1 Ymdriniodd Penodau 2 a 3 â llawer o'r ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a lles ymhlith pobl dros 50 oed ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn ein Hamcanion Strategol. Er enghraifft, nodwyd gennym y mentrau sy'n ymwneud â newid delweddau o heneiddio; hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol; cynyddu gweithgarwch economaidd ymhlith pobl dros 50 oed; sicrhau bod pobl hŷn yn hawliau'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt; annog gwirfoddoli; ac, yn gyffredinol, cydnabod cyfraniad cymdeithasol ac economaidd pobl hŷn.

4.2 Yn y Bennod hon, rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar bolisïau sy'n ymwneud â thai, iechyd a gofal cymdeithasol, o gofio'r cysylltiadau annatod sydd rhyngddynt. Gall y fath bolisïau atal problemau rhag datblygu i'r fath raddau fel y bygythir annibyniaeth pobl hŷn.

Nod Strategol

Gwella iechyd a lles pobl hŷn drwy fentrau i hyrwyddo iechyd yn ogystal â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thai ymatebol, o safon, a reoleiddir yn briodol. Bydd y rhain yn galluogi pobl hŷn i fyw bywyd mor weithgar ac annibynnol â phosibl mewn amgylchedd addas a diogel o'u dewis.

Amcanion Strategol

- Datblygu ymhellach raglen hybu iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pobl hŷn.
- Hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu dewis o dai, gwasanaethau gofal cartref, gwasanaethau cymorth a gwasanaethau cynghori i gynnig gwahanol fathau o gymorth i bobl hŷn wrth i'w hanghenion newid, tra'n diogelu eu hannibyniaeth.
- Sicrhau bod pobl hŷn - yn arbennig y rhai ag anableddau - yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartrefi eu hunain gan gynnwys mynediad prydlon i wres, addasiadau, atgyweiriadau, teleofal yn ogystal â thechnolegau cynorthwyol eraill a rhaglenni tai â chymorth.

- Cyflwyno mesurau newydd i gynorthwyo gofalwyr drwy nodi a diogelu eu hawliau.
- Mynd i'r afael ag amrywiadau mewn safonau gofal a sicrhau cysondeb o ran argaeledd ac ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gweithredu'r rhaglen o ddiwygio a nodir yn Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*, gan ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ymatebol o safon ar gyfer pobl hŷn sy'n agored i newid a hyrwyddo eu cynhwysiant cymdeithasol a'u hannibyniaeth.
- Sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn diogelu urddas pobl hŷn drwy system ofal lle nad yw camdriniaeth a diffyg parch yn cael eu goddef o gwbl.
- Datblygu polisïau i wella iechyd meddwl a lles pobl hŷn a'r modd y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu, gan gynnwys y rhai sy'n atal problemau iechyd meddwl yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Hwyluso'r gwaith o ddatblygu sector gofal cartref hyfyw, hyderus ac ymatebol sy'n darparu gwasanaethau o safon yng Nghymru ac sy'n cynnwys modelau gofal mwy hyblyg.

Polisïau a Rhaglenni

Cyfrifoldeb

4.3 Mae'r cyfrifoldeb am arwain y gwaith o gyflawni'r amcanion strategol hyn yn nwylo'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd, a'r Gyfarwyddiaeth Dai. Adrannau Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, megis budd-daliadau.

4.4 Er mwyn cyflawni **llawer o'r nodau a amlinellir yma** bydd angen partneriaethau cryf rhwng awdurdodau lleol, y GIG, sefydliadau gwirfoddol, darparwyr gofal yn y sector annibynnol, cynrychiolwyr pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill. Dylid **eu hadlewyrchu mewn Strategaethau Cymunedol a Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn lleol**.

Hyrwyddo Heneiddio'n Iach

4.5 Mae atal wrth wraidd y Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach (2005) sy'n canolbwyntio ar benderfynyddion allweddol iechyd a lles. Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd penderfynyddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol iechyd a lles, ac yn nodi gweithgareddau hybu iechyd sydd o fudd penodol i bobl hŷn. Mae'r rhain yn ymdrin â materion megis:

- gweithgarwch corfforol;
- bwyta'n iach;
- iechyd a lles emosiynol;
- rhoi'r gorau i ysmygu;
- yfed yn synhwyrol;
- iechyd rhywiol;
- diogelwch a chynhesrwydd yn y cartref;
- imiwneiddio rhag y ffliw;
- codi ymwybyddiaeth a sgrinio iechyd cyffredinol.

Prif elfennau'r Cynllun a arweinir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw'r Rhaglen 'Heneiddio'n Dda' yng Nghymru; 'Symud yn Amlach'; ac Ymgyrch 'Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn'. Ar ben hynny mae'r Cynllun yn ffurfio'r rhan fwyaf o elfen 'Hyrwyddo Iechyd a Lles' y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn y mae'r GIG a llywodraeth leol yn gyfrifol amdani. Bydd pob un o'r agweddau hyn ar y Cynllun wedi'u gwerthuso erbyn yr hydref 2009.

4.6 Mae mynediad i fwyd fforddiadwy o ansawdd uchel yn un o'r themâu craidd yn y Strategaeth Ansawdd Bwyd sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn bwysig i bawb er bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i grwpiau incwm isel a grwpiau sy'n agored i niwed y dangoswyd bod ganddynt ddiet gwaeth. Mae'r rhain yn cynnwys pobl hŷn sy'n agored i niwed ar incymau isel sydd ag afiechydon hirsefydlog cyfyngus. Un ymateb i hyn yw prosiectau mynediad i fwyd ar gyfer grwpiau difreintiedig ac yn yr ardaloedd mwyaf anghenus. Opsiwn mwy sylfaenol yw gweithio gyda'r sector cyhoeddus a'r sector masnachol i ddatblygu rhaglenni i helpu i leihau anghydraddoldebau o ran mynediad, argaeledd a pholisïau prisio. Gall gwaith cynllunio cymunedol sy'n cynnwys cyfleusterau siopa lleol hefyd gyfrannu at hygyrchedd bwyd; yr her yw sicrhau ansawdd bwyd a'i fod yn fforddiadwy.

4.7 **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod maeth da, a sicrhau bod pobl hŷn sy'n agored i niwed yn cael eu cynorthwyo i fwyta, yn arbennig yn yr ysbyty ac mewn cartrefi gofal, o'r pwys pennaf.** Mae diffyg maeth yn effeithio ar 10% o bobl dros 65 oed ac mae'n cael ei ganfod mewn 40% o'r holl gleifion a dderbynnir i ysbytai.

4.8 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fwyd mewn Ysbytai, a gadeirir gan y Prif Swyddog Nyrsio, wedi ystyried pob agwedd ar fwyd mewn ysbytai, gan gynnwys materion yn ymwneud â bwydo. Ymhlith prif argymhellion y Grŵp Bwyd mewn Ysbytai roedd bod yn rhaid rhannu gwersi a ddysgwyd o fentrau i wella ansawdd ac arfer bwyd mewn ysbytai ledled Cymru ac y dylid ategu'r gwaith mewn ysbytai drwy **wella ansawdd bwyd a weinir mewn lleoliadau cymunedol megis cartrefi nyrsio a thrwy wasanaethau pryd ar glud**. Caiff argymhellion y grŵp eu hymgorffori yn y Cynllun Gweithredu a fydd yn deillio o Drafodaeth ar Fwyd Cymru erbyn diwedd 2008. Bydd angen cymryd camau pellach hefyd i fynd i'r afael â diffyg maeth yn y gymuned am nad yw'n cael ei adnabod yn aml.

Byw Gartref - Cadw Annibyniaeth

4.9 Fel y nodwyd ym Mhennod 2, gall amgylchiadau tai ddylanwadu ar iechyd a lles pobl ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, yn ogystal â chynlluniau lleol eraill, adlewyrchu ei pholisïau ar dai. Mae'r bennod hon yn trafod nifer o'r mentrau hyn.

4.10 Mae **tlodi tanwydd** yn broblem fawr i lawer o bobl hŷn. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith cartrefi pensiynwyr, gan ddibynnu ar ddull amlasiantaeth o nodi a helpu cartrefi a allai gael budd o fesurau gwresogi ac inswleiddio yn ogystal â chyngor ar ba fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae'r un dull gweithredu yn ffurfio'r sail i'n Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref' a'n hymgyrch 'Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn', sy'n ffyrdd pwysig o ymgysylltu ag asiantaethau lleol a chenedlaethol i ddileu tlodi tanwydd. Neilltuwyd cyfanswm o £19.6m yn 2007-08 a bydd y swm hwn yn codi i £20.6m erbyn 2010-11.

4.11 **Dywed pobl hŷn eu bod yn ei chael hi'n anodd gofalu am eu cartrefi, trefnu i rywun wneud y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol a gwneud addasiadau pan fydd newidiadau o ran symudedd yn mynnu hynny.** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i neilltuo arian craidd i ddarparu Asiantaeth Gofal a Thrwsio ym mhob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol ledled Cymru. Dyma un o'r prif ffyrdd y gall pobl hŷn a phobl anabl drefnu addasiadau ffisegol i'w cartrefi.

4.12 Darperir arian ychwanegol drwy Asiantaeth Gofal a Thrwsio Cymru ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys sy'n helpu i gadw pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain, gan ddileu'r angen i'w hanfon i'r ysbyty a'r angen am ofal preswyl. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i ryddhau cleifion yn gynt o'r ysbyty. Yn achos pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru ac yn cael eu rheoli ganddynt, mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu helpu i dalu cost addasiadau drwy'r Cynllun Grant Addasiadau Ffisegol. Yn 2008-09, clustnodir £4.5m ar gyfer arian craidd ar gyfer Gofal a Thrwsio a £2.1m ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys.

4.13 **Mae gwasanaethau cyfarpar cymunedol yn hanfodol i gynorthwyo pobl anabl i fod yn annibynnol a hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau eraill i bobl hŷn.** Hyd yma, maent wedi'u rhannu rhwng y GIG a llywodraeth leol, rhaniad nad yw o reidrwydd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Am y rheswm hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu £12.5 miliwn o grant cyfalaf i gynorthwyo'r gwaith o integreiddio gwasanaethau cyfarpar cymunedol. Erbyn hyn mae gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru gydgysylltydd i reoli'r broses integreiddio a fydd yn golygu datblygu cytundebau sy'n ymwneud â chyllid wedi'i gyfuno. Bydd un gwasanaeth yn fuddiol i ddefnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n rhagnodi cyfarpar o'r fath.

4.14 Fel y nodwyd yn *Bywydau Bodlon, Cymunedol Cefnogol* - y strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru dros y degawd nesaf - bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid mewn llywodraeth leol, yn y sector iechyd a'r sector tai i **ddefnyddio technolegau gofal sy'n datblygu sy'n ei gwneud yn bosibl monitro lles pobl, yn gysylltiedig â gwasanaethau ymateb brys**. Bydd hyn yn lleihau'r angen i dderbyn pobl i'r ysbyty

neu gartrefi gofal. Ein targed yw darparu cyfarpar ar gyfer 10,000 o gartrefi ledled Cymru ac mae bron £10m mewn arian grant cyfalaf yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol dros dair blynedd i brynu synwyryddion teleofal a chyfarpar arall. Pan fyddant wedi'u cysylltu dros y ffôn â chanolfan monitro ac ymateb, gellir defnyddio'r rhain i gadw pobl ag anghenion gofal mawr yn eu cartrefi eu hunain. Gallant hefyd roi sicrwydd a diogelwch i'r rhai ag anghenion cymorth a'u gofalwyr.

4.15 Erbyn hyn mae gan bob un o'r 22 o awdurdodau yng Nghymru swyddog arweiniol penodol ar gyfer teleofal, maent yn aelodau o Rwydwaith Dysgu a Gwella Teleofal i Gymru gyfan, ac maent wedi llunio strategaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau lleol mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol ac asiantaethau eraill. Sefydlwyd gwefan ar gyfer unrhyw faterion sy'n ymwneud â datblygu teleofal yng Nghymru yn www.ssiacymru.org.uk/telecare.

4.16 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn hyrwyddo gweledigaeth newydd o opsiynau tai yn y dyfodol ar gyfer pobl hŷn. **Gall Tai Extracare roi mwy o gymorth na thai gwarchod traddodiadol tra'n cynnig mwy o annibyniaeth**. Mae gofal a chymorth wrth law ac mae pobl yn byw mewn cymuned o ddeiliadaethau cymysg (gallent fod yn berchen ar y tai neu yn eu rhentu) a galluoedd cymysg. Mae ganddynt eu drws ffrynt eu hunain, ac eto gallant fanteisio ar gyfleusterau cymunedol, ac mae eu cartrefi wedi'u hadeiladu yn unol â safonau Cartrefi am Oes er mwyn darparu ar gyfer eu hanghenion sy'n newid. Mae hyn yn golygu os bydd pobl yn mynd yn fregus nad oes rhaid iddynt adael eu cartrefi ond y gellir dod â phecynnau cymorth iddynt yn hawdd, tra eu bod yn aros mor annibynnol â phosibl mewn lleoliad cymuned gefnogol. Mae'r cartrefi ar gael i bobl a all symud yn ogystal â'r rhai sydd wedi mynd yn fregus. Mae awdurdodau lleol yn cynnig am gynlluniau Extracare ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo £21m y flwyddyn i noddi'r cynllun.

Gofalwyr Cymorth

4.17 **'Byddwn yn adolygu'r Strategaeth Gofalwyr ac yn paratoi deddfwriaeth ar hawliau gofalwyr'** (*Cymru'n Un*, 2007). Mae'r gofal a ddarperir gan ofalwyr di-dâl mor bwysig â'r gofal a ddarperir gan y GIG. Er mwyn cydnabod hyn, a'r galwadau a'r pwysau sylweddol a wynebir ganddynt, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ceisio pwerau gan Lywodraeth y DU i weithredu ar faterion sy'n ymwneud â gofalwyr. Cyflwynir Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (sy'n gofyn am y cyfryw bwerau) yn 2008 a rhagwelir y bydd wedi'i gymeradwyo erbyn hydref 2009. Caiff y mesurau a nodir yn y Gorchymyn, ynghyd ag agenda polisi sy'n 'seiliedig ar hawliau', eu datblygu gan ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys gofalwyr eu hunain, a chyhoeddir y mesurau drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

4.18 Lansiwyd Cynllun Gweithredu Strategaeth Gofalwyr Cymru yn 2007. Ymhlith ei ddarpariaethau mae:

- gwell gwybodaeth ar gyfer gofalwyr am berfformiad gwasanaethau awdurdodau lleol;
- gwell gwaith monitro o ran iechyd gofalwyr;
- gwell trefniadau cymorth ym maes gofal sylfaenol ar gyfer gofalwyr;
- gwiriadau i ganfod a yw gofalwyr yn cymryd rhan effeithiol yn nhrefniadau rhyddhau ysbytai;
- cynllun grantiau bach newydd i gynorthwyo grwpiau gofalwyr lleol i ddarparu gwell gwybodaeth.

Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu yn 2008 a'i ddiwygio i ystyried Strategaeth newydd arfaethedig y DU ar gyfer Gofalwyr yr ydym yn helpu i'w datblygu.

Gwella Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4.19 Mae dwy brif strategaeth yn nodi'r fframwaith lle y caiff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn eu datblygu, eu gweithredu a'u monitro. Pennodd y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn* (2006) ddeg **safon genedlaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**. Mae'r rhain yn cwmpasu materion cyffredinol megis gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â phroblemau iechyd penodol megis strôc. O fewn

y safonau hyn darperir ar gyfer arferion megis adolygiadau rheolaidd o feddyginiaeth. Caiff yr NSF ei werthuso yn 2009 a chyflwynir targedau a chamau gweithredu penodol pellach ar gyfer yr ail gyfnod er mwyn sicrhau **gwelliannau parhaus mewn ansawdd a chysondeb mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru**.

4.20 Y fframwaith strategol allweddol arall yw *Bywydau Bodlon, Cymunedol Cefnogol* (2007), a gaiff ei weithredu o fis Ebrill 2008, sy'n nodi'r **cyfeiriad polisi ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y deng mlynedd nesaf**. Pobl hŷn sy'n ffurfio'r grŵp cleientiaid mwyaf ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac felly mae'r Strategaeth yn arbennig o berthnasol iddynt. Bydd yn rhoi mwy o lais i bobl sydd angen gwasanaethau cymdeithasol ynglŷn â'r hyn sydd ei angen arnynt a'r modd y'i darperir; bydd ymyriadau cynnar yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn helpu unigolion i wireddu eu potensial llawn; caiff pobl hŷn yr effeithir arnynt gan salwch a nam eu cynorthwyo yn eu cartrefi a bydd hyn yn lleihau'r angen i dderbyn pobl i'r ysbyty neu'r angen am ofal preswyl gryn dipyn; a chaiff anghenion gofalwyr eu cydnabod. **Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar egwyddorion gwasanaethau cymdeithasol sy'n gryf, yn hygyrch ac yn atebol, sy'n cyd-fynd ag anghenion unigolion a chymunedau ac sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a hawliau dinasyddion**.

4.21 Yn ogystal â'r fframwaith strategol hwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu **gweledigaeth tymor hwy o natur gyfnewidiol gofal yng Nghymru**. Er y bydd rôl gofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn hanfodol, bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at fwy byth o alwadau ar wasanaethau a rhagwelir y bydd gan y garfan nesaf o bobl hŷn ddisgwyliadau uwch a gwahanol o ran ansawdd gwasanaethau a'r dewis o wasanaethau. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r arian sydd ei angen ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yr adolygiad hwn yn dechrau yn 2008-09 a bydd wedi'i gwblhau erbyn haf 2010. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu llunio Papur Gwyrdd ar y cymorth a ddarperir gan y sector gofal cymdeithasol a sut y rhennir y cyfrifoldeb dros dalu am ofal rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithredu â Llywodraeth y DU ar y gwaith hwn.

4.22 Yn ogystal â lefelau ariannu a'r defnydd a wneir o adnoddau, bydd cynllunio'r gweithlu yn fater allweddol. **Mae angen cyflenwad digonol o weithwyr gofal â chymwysterau da arnom sy'n ystyried bod gofalu yn yrfa ac sy'n cael lefelau priodol o gyflog**. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i 'ddatblygu'r cynlluniau presennol ar gyfer y gweithlu fel eu bod yn cynnwys yr holl staff gofal, gyda phwyslais cryf ar hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith er mwyn galluogi unigolion i ennill cymwysterau ar sail eu sgiliau ymarferol a datblygu'r sgiliau hynny ymhellach' (*Cymru'n Un*).

4.23 **Mae talu am ofal yn fater pwysig i lawer o bobl hŷn.** Fel yr addawyd yn nogfen *Cymru'n Un*, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud cais am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, sy'n nodi'r mesurau y mae Llywodraeth y Cynulliad am eu cyflwyno i sicrhau mwy o gysondeb wrth godi tâl am wasanaethau dibreswyl. 'Byddwn yn ceisio'r pwerau ac yna'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth i sicrhau mwy o chwarae teg o safbwynt codi tâl am wasanaethau gofal cartref' (*Cymru'n Un*).

Cadw Urddas a Pharch

4.24 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Raglen Urddas mewn Gofal newydd ar gyfer Cymru sy'n ceisio sicrhau **system ofal lle nad yw cam-drin pobl hŷn a diffyg parch at bobl hŷn yn cael eu goddef o gwbl**. Mae urddas yn amlweddol, ac mae'n cynnwys parch, preifatrwydd, annibyniaeth ac atgyfnerthu hunanwerth. Gellir gweld bygythiadau i urddas pobl hŷn mewn sefyllfaoedd lle y mae unigolyn yn cael ei gam-drin yn emosiynol neu'n gorfforol, ei stigmateiddio, ei fychanu, ei esgeuluso, neu ei drin yn fwy fel gwrthrych nag fel person. Mae hefyd yn amlwg pan na fydd gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau yn diwallu anghenion unigolyn nac yn ymateb iddynt, yn amrywio o beth yr hoffai gael ei alw i'r mathau o driniaeth neu ofal a roddir iddo.

4.25 I ddechrau bydd y Rhaglen yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn; mae'r rhan fwyaf ohonynt eisoes yn rhan o safonau galwedigaethol llawer o staff iechyd a gofal cymdeithasol. Ar yr un pryd, bydd partneriaethau lleol a chenedlaethol sy'n cynnwys pob rhanddeiliad, gan gynnwys pobl hŷn, yn datblygu rhaglenni hyfforddi a

monitro a chynlluniau gweithredu pellach i sicrhau bod y modd y darperir gwasanaethau o ddydd i ddydd yn diogelu urddas pobl hŷn. Yn lleol mae'r GIG - byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau - yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau gofal sylfaenol yn parchu urddas cleifion. Mae gan lywodraeth leol ddyletswydd debyg i'w chleientiaid. Bydd y fframweithiau strategol cenedlaethol cyffredinol sy'n llywio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sef *Cynllun Oes* a *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*, yn cwmpasu'r pwyslais newydd hwn ar urddas.

4.26 O ran **cam-drin pobl hŷn**, bydd ein Grŵp Cynghori ar Amddiffyn Oedolion yn nodi achosion cam-drin pobl hŷn, pa mor fawr yw'r broblem, y systemau mwyaf effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â hi a'r ffordd orau o gynorthwyo'r rhai yr effeithir arnynt. Y cam cyntaf, yn 2008, fydd ystyried cwmpas a manylder y fframwaith polisi presennol a'r ymchwil a gyhoeddwyd eisoes ar y materion hyn er mwyn nodi'r angen am gamau gweithredu pellach.

Iechyd Meddwl

4.27 Ym mis Awst 2007 lansiwyd ail adroddiad gan Ymchwiliad Iechyd Meddwl a Lles Pobl Hŷn y DU. Mae'n datgelu **bod problemau iechyd meddwl yn effeithio ar lawer mwy o bobl hŷn nag a dybiwyd yn flaenorol ac y bydd y niferoedd yn cynyddu yn y dyfodol**. Gellir olrhain llawer o broblemau o'r fath ymhlith pobl hŷn i'r ffaith eu bod wedi'u hynysu, yn unig ac yn byw mewn tlodi. Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu Hybu Iechyd Meddwl ar hyn o bryd, sy'n cynnwys adran ar iechyd meddwl pobl hŷn. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru eisoes yn cynnwys safonau o ran iechyd meddwl ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i hybu iechyd meddwl da; mynd i'r afael â stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl; a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol pobl â phroblemau iechyd meddwl. Rhoddir hyd yn oed fwy o flaenoriaeth i'r materion hyn yng ngham nesaf yr NSF.

4.28 Fel yng ngweddill y DU, rhagwelir y bydd niferoedd cynyddol o bobl yn dioddef o **ddemensia** yng Nghymru: dros 11,000 yn fwy o bobl, cynnydd o 30% rhwng 2007 a 2021. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cynnal adolygiad o strategaethau sy'n bodoli eisoes ac unrhyw fylchau mewn polisi ac yn y gwasanaethau a ddarperir mewn perthynas â demensia. Mae hyn yn awgrymu bod y polisi presennol a modelau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer demensia fel y'u nodir mewn canllawiau sy'n bodoli eisoes yn gynhwysfawr. Yr her yw sefydlu a rhannu arfer gorau, gan sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dilyn yn gyson.

Codi Safonau mewn Cartrefi Gofal

4.29 Diwygiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, **y ffordd y mae cartrefi gofal yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio**. Mae'r rheoliadau hyn, a fu ar waith ers nifer o flynyddoedd, yn cwmpasu materion megis addasrwydd rheolwyr a staff, y ddyletswydd gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau ac addasrwydd adeiladau i'r diben. Ar ben hynny, ar ôl ymgynghori'n eang, **pennwyd safonau gofynnol cenedlaethol i nodi'r lefel o ofal a ddisgwylir mewn gwasanaethau a chyflwyno mwy o gysondeb o ran safonau ledled Cymru**. Wrth werthuso cartrefi gofal, ystyrir barn defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, perthnasau a staff er mwyn nodi profiadau derbynwyr a gweithwyr gofal o ofal. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn monitro perfformiad yn erbyn y fframwaith rheoliadol ac yn gweithio gyda darparwyr i wella gwasanaethau yn barhaus. **Yn 2008 byddwn yn adolygu'r fframwaith o reoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal oedolion** sy'n cynnwys gofal cartref a chartrefi gofal.

4.30 Mae Trosolwg y Prif Arolygydd o Ofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2006-2007 yn nodi, er bod y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n argoeli'n dda, bod problemau o hyd a bod y bwlch rhwng perfformwyr da a gwael yn tyfu. Mae hyn i'w briodoli yn rhannol i broblemau yn gysylltiedig â rhai gwasanaethau sydd â phrosesau anghyson ar gyfer asesu, cynllunio gofal ac adolygu, a phroblemau

sy'n gysylltiedig â rheoli'r gweithlu. Mae'r Prif Arolygydd yn nodi bod mesurau bellach ar waith i ysgogi gwelliannau a bydd gweithredu *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* yn bwysig yn hyn o beth. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu strategaethau i wella'r ffyrdd y mae byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn contractio â darparwyr i brynu gofal i bobl hŷn a sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Pennod 5

Gwneud iddo Ddigwydd: Gweithredu'r Strategaeth

5.1 Nododd penodau blaenorol y mentrau yr ydym yn eu gweithredu yn ystod ail gyfnod y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl hŷn; pwysigrwydd mynd i'r afael â dau ddylanwad allweddol ar iechyd a lles - cynhwysiant cymdeithasol a lles materol; a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o safon sy'n galluogi pobl hŷn i gadw ymdeimlad o reolaeth dros eu bywydau eu hunain.

5.2 Yn y bennod hon rydym yn dangos sut y caiff ail gyfnod y Strategaeth hon ei weithredu. Dim ond pan y'i hadlewyrchir yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau a chynlluniau gweithredu y mae gwerth y fframwaith yn amlwg.

Nod Strategol

Gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru drwy ddefnyddio cyllid cymorth i sicrhau ei bod yn gatalydd ar gyfer newid ac arloesi ym mhob sector, gan wella gwasanaethau i bobl hŷn, darparu'r sail ar gyfer cynllunio effeithiol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio ac adlewyrchu pryderon pobl hŷn.

Amcanion Strategol

- Atgyfnerthu'r strwythurau craidd a fu'n sail i'r Strategaeth a sicrhau bod pwyslais ar brif ffrydio'r Strategaeth.
- Gweithio gyda sefydliadau partner cenedlaethol a fydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at ail gyfnod y Strategaeth.
- Parhau i ddarparu arian cymorth ar gyfer y Strategaeth gan ddisgwyl y caiff nodau ac amcanion y Strategaeth eu prif ffrydio yn lleol ac yn genedlaethol.

- Monitro cynnyddd y Strategaeth o ran gweithredu polisïau, rhaglenni a gwasanaethau, a phennu dangosyddion allweddol a fydd yn olrhain newidiadau yn amgylchiadau pobl hŷn.
- Meithrin ymchwil gyda phobl hŷn ac arnynt.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch a gwella sianelau cyfathrebu.

5.3 Ni allwn weithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ar ein pen ein hunain ac mae'n rhaid i ni greu partneriaeth ystyrlon â llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, y sector preifat, grwpiau pobl hŷn a phobl hŷn eu hunain. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi rhoi hyd yn oed fwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth a chydweithredu'n lleol, gan adlewyrchu argymhellion *Creu'r Cysylltiadau*. Ar ben hynny, nododd Adroddiad Beecham, *Cyflawni ar Draws Ffiniau*, yn glir bod yn rhaid i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus wneud mwy i gynnwys unigolion, gan sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

5.4 **Mae'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth yn seiliedig ar amgylchiadau lleol,** ac mae'n ystyried y gwahanol faterion ledled Cymru ac yn sicrhau bod gwasanaethau wedi'u teilwra i anghenion y cwsmer. Gwnaed cryn dipyn o gynnydd yn ystod cyfnod cyntaf y Strategaeth ac adeiledir ar hwn yn ystod yr ail gyfnod. O 2008-09 bydd gan awdurdodau lleol ddyletswydd i lunio un Strategaeth Gymunedol gyffredin a fydd yn ymgorffori tair strategaeth arall - sef y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Chynllun Datblygu Lleol. Yn ystod ail gyfnod y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, mae'r pwyslais ar 'brif ffrydio' pryderon pobl hŷn, fel y cânt eu hintegreiddio ym mhob maes polisi. Mae hyn yn golygu y dylent gael eu hystyried gan bob adran ac ym mhob un o'r Strategaethau craidd a ddatblygir yn lleol.

Strwythurau Craidd

5.5 Mae'r gwaith o weithredu'r Strategaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru **yn cael ei arwain gan Weinidog â chyfrifoldeb penodol dros bobl hŷn** sy'n sicrhau bod penderfyniadau'r Cabinet yn cael eu gweithredu. **Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo agenda ar gyfer newid**

sy'n cwmpasu'r gwaith o brif ffrydio'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn - mae'n rhaid i holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad a holl adrannau awdurdodau lleol ystyried ei nodau a'i hamcanion a'i gwerthoedd sylfaenol. Mae adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi'r meysydd y byddant yn eu gweithredu yn ystod yr ail gyfnod hwn. Rhestrir y themâu a gymeradwywyd gan y Cabinet yn Atodiad 1 a chyflwynir y cynllun gweithredu yn Atodiad 2.

5.6 Ar lefel llywodraeth leol, mae awdurdodau wedi gwneud cynnydd gwirioneddol ers lansio'r Strategaeth ac mae'r Cydgysylltwyr wedi chwarae rôl hanfodol bwysig wrth ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth. Unwaith eto bydd angen rhoi rhagor o flaenoriaeth a phwyslais ar y gwaith hwn dros y pum mlynedd nesaf. Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu mai swyddfa'r Prif Weithredwr yw'r lle gorau i leoli Cydgysylltwyr yn hytrach na'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae swyddfa'r Prif Weithredwr yn fwy tebygol o hwyluso dull gweithredu strategol eang sy'n cynnwys cydweithredu ystyrlon ar draws llawer o adrannau awdurdodau lleol. **Mae angen cylch gwaith eang ar Gydgysylltwyr er mwyn iddynt weithredu'r Strategaeth**, felly, ni waeth ble y maent wedi'u lleoli, mae'n rhaid iddynt allu sicrhau cydweithredu eang ar draws adrannau fel na fyddant yn canolbwyntio ar iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Mae hyn yn hanfodol bwysig er mwyn prif ffrydio'r Strategaeth a bydd angen i Gydgysylltwyr **gael cymorth rheoli ac arweiniad cryf gan y Prif Weithredwr**.

5.7 Er bod rôl '**Hyrwyddwr Pobl Hŷn**' mewn cynghorau lleol yn bwysig, gall amrywio o awdurdod lleol i awdurdod lleol. Er mwyn **hyrwyddo cyflwyno pryderon pobl hŷn yn llawn a gweithredu ar draws holl adrannau perthnasol awdurdodau lleol**, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dwyn ynghyd ganllawiau sy'n bodoli eisoes sy'n cefnogi'r Hyrwyddwyr, gan amlinellu eu rôl a disgwyliadau allweddol.

5.8 **Mae awdurdodau lleol wedi cymryd camau pwysig tuag at ymgysylltu â phobl hŷn, er eu bod yn dal i wynebu'r her o gyrraedd cymaint ohonynt â phosibl**, yn arbennig, ymgysylltu â'r bobl hynny na allant adael eu cartrefi, pobl yn eu 50au a'u 60au cynnar, aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol, grwpiau lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a grwpiau eraill nas clywir yn aml. Mae'n bwysig bod y boblogaeth

amrywiol o bobl dros 50 oed yn chwarae rhan ystyrlon yn y gwaith o lunio a gweithredu polisi. Byddwn yn dosbarthu canllawiau i awdurdodau lleol ar ymgysylltu â fforymau 50+ a sicrhau eu cyfranogiad ac yn annog cyflwyno cynlluniau i gyrraedd cymaint o bobl hŷn â phosibl.

5.9 Mae cyfathrebu yn fater allweddol y mae'n rhaid rhoi sylw iddo. Mae'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn seiliedig ar ymgysylltu, partneriaethau a chydweithio ac er mwyn gwireddu'r dyheadau hyn, mae'n rhaid iddynt gynnwys **sianelau cyfathrebu cryf**. Bydd yn bwysig ystyried:

- y ffordd orau o roi llais i bobl hŷn ar lefel ranbarthol a chenedlaethol;
- sut y rhoddir adborth iddynt;
- sut y gellir rhannu arfer effeithiol;
- sut y lledaenir canfyddiadau ymchwil ac y sicrheir y gall gwahanol gynulleidfaoedd gael gafael arnynt;
- sut y trosglwyddir cyngor i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'n rhaid i bob partner roi sylw i'r materion hyn yn ystod ail gyfnod y Strategaeth.

Sefydliadau Partner Cenedlaethol

5.10 Bydd y **Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol** yn tynnu ar ymchwil ac arbenigedd ei aelodau i roi cyngor ar faterion blaenoriaeth sy'n effeithio ar bobl hŷn. Bydd yn chwarae rôl gryfach wrth roi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad yn ogystal ag ymgysylltu ag uwch swyddogion ym mhob adran sy'n ymwneud â'r Strategaeth.

5.11 Bydd **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** yn cyflogi swyddog polisi i Gymru gyfan ar gyfer pobl sy'n heneiddio a phobl hŷn ac fe'i lleolir yn eu hadran cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb. Bydd y swyddog polisi yn cynorthwyo llywodraeth leol i brif ffrydio'r agenda a nodir yn y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn. Bydd hefyd yn creu cysylltiadau â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn paratoi awdurdodau lleol ar gyfer yr adeg pan gaiff arian y Strategaeth ei gyfeirio at y Grant Cynnal Refeniw yn 2010. Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio'n agos gyda **Llywodraeth Well i Bobl Hŷn y DU** sydd wedi ymrwymo i weithio gyda grwpiau pobl hŷn a rhannu arfer gorau.

5.12 Bydd **Cynghrair Henoed Cymru**, cynghrair o sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio yng Nghymru, yn parhau â'i waith o gynrychioli pryderon ei aelodau yn ogystal â rhannu gwybodaeth â'r sector gwirfoddol. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad drwy grant i Age Concern Cymru i hyrwyddo'r gwaith o gydgysylltu'r Cynghrair.

5.13 Bydd cymorth ariannol yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer y gwaith pwysig y mae **Sefydliad Beth Johnson** a **Chanolfan Cymru ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau** a leolir ym Mhrifysgol Morgannwg yn ei wneud i bontio'r cenedlaethau. Cyhoeddir Strategaeth ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau er mwyn ymgynghori arni yn 2008.

Arian

5.14 Dyrennir arian ar gyfer y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng nghyd-destun y pwysau cynyddol ar arian cyhoeddus yn genedlaethol ac yn lleol. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu tua £12.1 miliwn dros y tair blynedd nesaf ar gyfer y Strategaeth. Y dyraniad ar gyfer pob blwyddyn yw £4.6m yn 2008-09; £4.0m yn 2009-10; a £3.5m yn 2010-11. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £5m a ddyrannwyd i swydd newydd y Comisiynydd rhwng 2008 a diwedd Mawrth 2011.

5.15 Ar ben hynny, mae llawer o bobl hŷn yn cael budd o'r arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pob un o'i rhaglenni gan gynnwys llywodraeth leol, y GIG a sefydliadau gwirfoddol. Mae rhai o'r meysydd ariannu penodol ar gyfer:

- cyflogaeth 50+;
- Cymunedau yn Gyntaf;
- y Fenter Wirfoddoli;
- y Strategaeth Gofalwyr;
- teithio ar y bws am ddim;
- nofio am ddim;
- strategaethau hybu iechyd;
- gofal cartref am ddim am chwe wythnos;
- codi tâl am ofal cartref;
- teleofal;
- cyfarpar cymunedol;

- diwygio'r GIG;
- cynlluniau gweithredu Gofal Sylfaenol.

5.16 Yn 2008-09 bydd awdurdodau lleol yn cael £2.4m, ac yn 2009-10, £1.7m, sy'n ostyngiad yn y cyllid a ddarperir ar gyfer prosiectau peilot ar raddfa fach. Ar ôl hynny, bydd arian Llywodraeth y Cynulliad yn trosglwyddo i Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol a byddant yn cael £1m yn 2010-11. Mae'r swm hwn yn rhagdybio, pan gaiff y Strategaeth ei phrif ffrydio ar draws adrannau awdurdodau lleol, y caiff y costau eu hamsugno gan y meysydd hynny a all elwa o arbedion effeithlonrwydd. Bydd lefel y cyllid yn galluogi cynghorau i barhau i gynorthwyo'r rolau allweddol a chwaraeir gan Gydgysylltwyr, Hyrwyddwyr a fforymau pobl dros 50 oed. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb lleol dros gyflawni'r nodau strategol, gan gynnwys neilltuo adnoddau priodol i'w cyflawni.

5.17 Clustnodwyd bron £800,000 y flwyddyn o 2008-09 i 2010-11 i'r sector gwirfoddol; cyfuniad o arian y Strategaeth ac arian o dan Adran 64. Bydd yn ariannu Cynghrair Henoed Cymru i alluogi'r sector gwirfoddol i barhau i gynorthwyo'r Strategaeth, Age Concern Cymru, Help the Aged, Cymdeithas Alzheimer, Rhaglen Wirfoddoli'r Rhai sydd wedi Ymddeol a Phobl Hŷn a hefyd Sefydliad Beth Johnson o ran y Strategaeth ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau.

Monitro

5.18 Mae'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn cael ei fonitro mewn nifer o ffyrdd. Mae awdurdodau lleol a chyrff eraill a ariennir gan y Strategaeth yn cyflwyno adroddiadau blynyddol a thua diwedd y cyfnod cyntaf cynhaliwyd adolygiadau annibynnol o'r Strategaeth yn gyffredinol ac o'i sefydliadau partner cenedlaethol. Bydd yr arfer hwn yn parhau yn ystod ail gyfnod y Strategaeth.

5.19 Ar ôl ymgynghori, datblygwyd **Dangosyddion Newid** sy'n cyfeirio at rai o'r cyfrifoldebau datganoledig a amlinellir yn y Strategaeth. Rhestrir y rhain yn Atodiad 3. Maent yn canolbwyntio ar agweddau ar y nodau strategol allweddol:

- **cynhwysiant cymdeithasol** - ofn troseddu, ac os gellir nodi mesurau priodol, trafnidiaeth a chysylltiad â'r teulu a ffrindiau;
- **lles materol** - y gyfradd gyflogaeth, cymryd rhan mewn addysg/hyfforddiant cysylltiedig â gwaith;
- **heneiddio'n weithgar** - cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden;
- **gofal cymdeithasol** - cael gwasanaethau yn y gymuned sy'n helpu pobl i fyw gartref, ansawdd tai;
- **gofal iechyd** - mynediad at driniaethau llawfeddygol dethol;
- **iechyd a lles** - disgwyliad oes iach heb anabledd.

Bydd y rhain yn dibynnu ar ddata a gasglwyd eisoes, fel y gellir olrhain newidiadau dros gyfnod y Strategaeth ac ar ôl hynny yn y rhan fwyaf o achosion. Er na allant gymryd lle dealltwriaeth lawer llawnach o sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru, byddant yn creu darlun o'r modd y mae nodweddion allweddol bywydau pobl hŷn yn newid dros amser. Ategir yr wybodaeth hon gan ddata sy'n cwmpasu cyfrifoldebau ar lefel y DU a chyflwynir adroddiadau rheolaidd arno.

5.20 Yr agwedd newydd arall ar waith monitro yw penodiad y **Comisiynydd Pobl Hŷn annibynnol yng Nghymru** a fydd yn craffu ar berfformiad llywodraeth genedlaethol a lleol ac yn gweithredu fel eiriolwr dros bobl hŷn, gan gynrychioli eu buddiannau.

Ymchwil a Chyfathrebu

5.21 O'r dechrau, **agwedd bwysig ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yw ei bod wedi'i seilio ar dystiolaeth**, gan dynnu ar wahanol ffynonellau ymchwil i alluogi datblygu polisi ar sail gwybodaeth. Mae gan Gymru record dda o ran ymchwil i heneiddio, er nad oes corff digonol o ymchwil eto sy'n ymwneud yn benodol â phobl hŷn yng Nghymru. Er mwyn cydnabod y bwlch hwn, sefydlwyd y **Rhwydwaith Ymchwil Heneiddio Pobl Hŷn** (OPAN Cymru) ym mis Ionawr 2006. Rhwydwaith ymchwil amlddisgyblaeth ydyw sy'n ceisio gwella ansawdd ymchwil i heneiddio yng Nghymru ac ysgogi mwy o ymchwil, gwella prosesau integreiddio polisi, arfer ac ymchwil, atgyfnerthu prosiectau ymchwil cydweithrediadol

ar draws sectorau, a chynyddu cyfranogiad pobl hŷn yn y broses ymchwil. Mae'n bwriadu trefnu fforymau i ddwyn uwch wneuthurwyr polisi ac ymchwilwyr ynghyd fel cam tuag at greu cysylltiadau agos rhwng ymchwil academaidd ac ymchwil sy'n seiliedig ar bolisi.

5.22 Mae OPAN yn cynnig y potensial i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil yn y dyfodol a lledaenu gwybodaeth i amrywiaeth eang o ymchwilwyr, gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr. Ar ben hynny, **bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu at y gwaith o ledaenu canfyddiadau ymchwil** drwy ddarparu'r wybodaeth sydd gan ein Hadran Ymchwil Polisi Cymdeithasol am ymchwil a pholisi ar heneiddio.

5.23 Ymhlith y blaenoriaethau ymchwil a nodwyd mewn ymgynghoriad mae pwysigrwydd monitro effeithiau polisïau a gwasanaethau sy'n targedu gweithgarwch atal yn yr ystyr ehangach - er enghraifft, rhaglenni i gynyddu incwm cymaint â phosibl, ymdrechion i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, a rhaglenni atal cwympo. Byddai hyn yn cynnwys dadansoddi costau tymor canolig a hirdymor fel sail ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a rhaglenni newydd. Byddai'n helpu i ddarparu tystiolaeth i ategu ymhellach y pwyslais ar atal a mynd i'r afael â'r penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd iechyd a lles sy'n nodweddu'r Strategaeth.

5.24 I grynhoi, **mae nodau ac amcanion Strategol y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn uchelgeisiol ac nid yw'n hawdd eu cyflawni**. Rydym wedi anelu'n uchel ac yn eich gwahodd chi - pobl hŷn, gofalwyr, gwirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol, cyflogwyr, undebau llafur, addysgwyr ac eraill - i ymuno â ni, awdurdodau lleol a'r GIG i wireddu'r nodau hyn.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mawrth 2008

Themâu a Gymeradwywyd gan Gabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cymeradwyodd Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru y pedair thema a gynrychiolir ym Mhenodau 2 i 5 o'r Strategaeth hon ac o fewn y themâu hyn nododd 24 o faterion blaenoriaeth ar gyfer ail gyfnod y Strategaeth:

Gwerthfawrogi Pobl Hŷn - Cynnal a Datblygu Ymgysylltu

- Sefydlu Swydd Comisiynydd Pobl Hŷn.
- Hyrwyddo ymhellach ymgysylltu â phobl hŷn a chyfranogiad pobl hŷn.
- Atal gwahaniaethu ar sail oed, hyrwyddo cydraddoldeb a phrif ffrydio polisïau.
- Hyrwyddo a datblygu polisïau i sicrhau cynhwysiant cymdeithasol pobl hŷn.
- Annog arfer sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Dylanwadu ar y gwaith o gynllunio'r amgylchedd adeiledig a datblygu gweithgarwch cynllunio sy'n ystyriol o oed.

Cymdeithas sy'n Newid - Statws a Chyfraniad Economaidd Pobl Hŷn

- Cynyddu gweithgarwch economaidd pobl dros 50 oed.
- Ymestyn bywyd gwaith.
- Lleihau tlodi a chynyddu nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau.
- Annog dysgu gydol oes a datblygu sgiliau, gan gynnwys TG.
- Annog gwirfoddoli.

Lles ac Annibyniaeth

- Cynyddu opsiynau tai a chymorth i bobl hŷn.
- Annog heneiddio'n iach ac yn weithgar, gan gynnwys nofio am ddim, teithio ar y bws am ddim, teithio ar y trên am bris gostyngol a mynediad am bris gostyngol i safleoedd treftadaeth a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad.
- Parhau i wella gwasanaethau cymdeithasol a chanolbwyntio ar annibyniaeth.
- Annog defnyddio technoleg gynorthwyol.
- Mynd i'r afael ag iechyd meddwl gan gynnwys demensia.
- Datblygu cartrefi nyrsio di-elw.
- Codi safonau mewn cartrefi gofal a gofal cartref.
- Adolygu'r trefniadau talu am ofal.
- Cynorthwyo gofalwyr.

Gwneud iddo Ddigwydd - Gweithredu

- Creu'r Cysylltiadau: cydweithio i wella gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn.
- Gweithredu gan y Llywodraeth a chefnogaeth y Llywodraeth i'r sector gwirfoddol.
- Awdurdodau lleol yn gweithredu'r Strategaeth.
- Ymchwil a datblygu polisi.

Sylwer

Fel y bydd y darllenydd wedi sylwi, mae rhai materion yn ymddangos mewn trefn wahanol yn y ddogfen. Er enghraifft, trafodir trafnidiaeth a mynediad i'r safleoedd treftadaeth a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad ym Mhennod 2 fel agweddau ar gynhwysiant cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.

Cynllun Gweithredu

1. Canllawiau ar ymgysylltu â phobl dros 50 oed a sicrhau eu cyfraniad yn effeithiol
   - Gwaith yn dechrau Ebrill 2008.
   - Cynhelir ymgynghoriad yn ystod hydref 2008.
   - Cyhoeddi Ebrill 2009.
   - Cynnwys yng nghynllun gweithredu 2009-10.
2. Comisiynydd Pobl Hŷn
   - Penodwyd 7 Ionawr 2008.
   - Cychwyn yn y swydd 21 Ebrill 2008.
3. Gŵyl Gelfyddydau Gwanwyn
   - Mai 2008.
4. Cydraddoldeb ac amrywiaeth
   - Lansiwyd y broses asesu effaith yn ystod hydref 2007.
   - Proses gyflwyno barhaus wrth i bolisïau newydd gael eu hasesu.
5. Strategaeth ar gyfer Pontio'r Cenedlaethau
   - Cyhoeddi'r fersiwn drafft er mwyn ymgynghori arni a chwblhau'r strategaeth erbyn hydref 2008.
6. Cynllun trafnidiaeth rhanbarthol
   - Cyflwyno drafft cyntaf yn ystod hydref 2008.
7. Mesur Trafnidiaeth Leol
   - Rhagwelir Cydsyniad Brenhinol Hydref 2008.
8. Cynlluniau tocynnau trên mantais peilot
   - Cwblhawyd y gwerthusiad Mawrth 2008.
   - Gwaith dilynol ar y gwerthusiad, Ebrill 2008.
9. Y Fargen Newydd 50 oed a throsodd yng Nghymru
   - Adolygu cynnydd 2008-09.

10. Gwaith ac iechyd
    - Cyngor iechyd galwedigaethol am ddim i fusnesau Bach a Chanolig, Mawrth 2008.
    - Cymorth ar-lein i feddygon teulu ar ymgynghoriadau addasrwydd i weithio, Ebrill 2008.
    - Gwella mynediad i hyfforddiant iechyd galwedigaethol, Medi 2008.

11. Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru
    - Ymgynghoriad haf 2008.
    - Cyhoeddir hydref 2008.

12. Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach
    - Cwblhau adolygiadau o'r cyfnod cyntaf, gwanwyn 2008.
    - Cynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf, o haf 2008.

13. Trafodaeth ar Fwyd Cymru
    - Cwblhau'r Cynllun Gweithredu erbyn diwedd 2008.

14. Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn
    - Adolygiad cychwynnol o gynnydd, gwanwyn 2008.
    - Adolygiad cynhwysfawr, 2009.

15. Bywydau Bodlon Cymunedau Cefnogol
    - Gweithredir y Strategaeth o Ebrill 2008.

16. Adolygiad o reoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol gwasanaethau gofal oedolion
    - Cyhoeddir cynlluniau erbyn Mehefin 2008.

17. Adolygiad cynhwysfawr o'r modd yr ariennir gofal cymdeithasol yng Nghymru
    - Dechrau'r adolygiad 2008-09.
    - Cwblheir haf 2010.

18. Y Strategaeth Gofalwyr
    - Cyflwyno Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol 2008.
    - Cyhoeddi Adolygiad y DU haf 2008.

19. Canllawiau i Eiriolwyr dros Bobl Hŷn
    - Cwblhau erbyn hydref 2008.

20. Rhesymoli Cynlluniau Awdurdodau Lleol
    - Symud i bedair strategaeth lefel uchel, 2008-09.
    - Cyflwyno'r ail gyfres o Strategaethau ar gyfer Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles, Ebrill 2008.

Dangosyddion Newid

Mae'r Dangosyddion Newid canlynol yn cyfeirio at faterion datganoledig ac yn defnyddio data a gasglwyd eisoes.

Cynhwysiant Cymdeithasol

1. **Ofn troseddu:** canran y bobl 50 oed a throsodd sy'n dweud bod ofn troseddu yn cael cryn effaith ar eu bywydau.

   Ar ben hynny, caiff y ddau fesur canlynol eu cynnwys os gellir defnyddio data sy'n bodoli eisoes:

   - cysylltiad â'r teulu a ffrindiau;
   - mynediad i drafnidiaeth.

Lles Materol

2. **Y gyfradd gyflogaeth:** y rhai sydd mewn gwaith fel canran o'r boblogaeth, mewn tri grŵp oedran:

   a. 16-59/64 (ar gael ar gyfer Cymru gyfan ac yn ôl awdurdod lleol).

   b. 50-59/64 (ar gael ar lefel Cymru gyfan).

   c. 60/65+ (ar gael ar lefel Cymru gyfan).

3. **Pobl hŷn mewn addysg/hyfforddiant cysylltiedig â gwaith:** canran y bobl 50 oed a throsodd a oedd wedi cymryd rhan mewn unrhyw addysg neu hyfforddiant a oedd yn gysylltiedig â'u swydd, neu unrhyw swydd y gallent ei gwneud yn y dyfodol, yn ystod cyfnod o dri mis.

Heneiddio'n Weithgar

4. **Cyfranogi mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden:** cyfranogiad gan bobl 50 oed a throsodd mewn unrhyw gamp neu weithgaredd yn ystod cyfnod o bedair wythnos.

Gofal Cymdeithasol

5. **Cael gwasanaethau yn y gymuned sy'n helpu pobl i fyw gartref:** cyfradd y bobl 65 oed a throsodd a gynorthwywyd i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a throsodd.

6. **Tai nad ydynt yn addas i fyw ynddynt neu sydd mewn cyflwr diffygiol:** canran y menywod 60 oed a throsodd a dynion 65 oed a throsodd sy'n byw mewn cartrefi a ddosberthir fel rhai (a) anaddas a (b) diffygiol.

Gofal Iechyd

7. **Mynediad i weithdrefnau llawfeddygol dethol:** cyfraddau fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a throsodd:

    a. gosod clun newydd;

    b. gosod pen-glin.

Iechyd a Lles

8. **Disgwyliad oes iach pobl 65 oed a throsodd:** y nifer gyfartalog o flynyddoedd y gall unigolyn 65 oed ddisgwyl byw mewn iechyd da neu eithaf da, yn seiliedig ar asesiad pobl eu hunain o'u hiechyd cyffredinol.

9. **Disgwyliad oes heb anabledd pobl 65 oed a throsodd:** y nifer gyfartalog o flynyddoedd y gall unigolyn 65 oed ddisgwyl byw heb salwch hirsefydlog cyfyngus.